Arolygiad o dan Adran 28
Deddf Addysg 2005

Adroddiad ar ansawdd addysg yn

Ysgol Heol Goffa
Heol Goffa
Llanelli
Sir Gaerfyrddin
SA15 3LS

Rhif yr ysgol: 6697000

Dyddiad yr arolygiad: 17 Mai 2010

gan

Glyn Griffiths
79321

Dyddiad cyhoeddi: 20 Gorffennaf 2010

O dan gontract Estyn: 1300509

Ⓗ **Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2010: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael o'r ysgol. O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad yn ddi-dâl i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost ailgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad.

Cyflwyniad

Arolygwyd Ysgol Heol Goffa fel rhan o raglen genedlaethol arolygu ysgolion. Diben arolygu yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a gwella'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Bwriedir i arolygu pob ysgol o fewn cylch chwe blynedd hefyd roi mwy o wybodaeth i rieni am berfformiad ysgol eu plentyn.

Cynhaliwyd yr arolygiad o Ysgol Heol Goffa rhwng 17 a 19 Mai, 2010 gan dîm annibynnol o arolygwyr, wedi'u harwain gan Glyn Griffiths. Comisiynwyd yr arolygiad gan Estyn, sef corff statudol sy'n annibynnol ar, ond a ariennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Roedd yn ofynnol i'r tîm adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol, ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth a'r cyfraniad a wneir gan yr ysgol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion.

Mae adroddiadau Estyn yn dilyn ei arweiniad ar gyfer ysgrifennu a golygu adroddiadau, sydd ar gael ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk). Mae'r tabl isod yn dangos y termau a ddefnyddir gan Estyn a syniad bras o'u hystyr. Mae'r tabl ar gyfer rhoi arweiniad yn unig.

Bron pob un	gydag ychydig iawn o eithriadau
Y rhan fwyaf	90% neu fwy
Llawer	70% neu fwy
Mwyafrif	dros 60%
Hanner/tua hanner	yn agos 50%
Lleiafrif	islaw 40%
Rhai	islaw 20%
Ychydig iawn	llai na 10%

Mae'r raddfa pum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli'r holl farnau arolygu yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

Gradd 1 da gyda nodweddion rhagorol
Gradd 2 nodweddion da a dim diffygion pwysig
Gradd 3 nodweddion da'n gorbwyso diffygion
Gradd 4 rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig
Gradd 5 llawer o ddiffygion pwysig

Mae tri math o arolygiad.

Ar gyfer **pob** arolygiad, ceir adroddiad ysgrifenedig ar saith cwestiwn allweddol.

Ar gyfer arolygiadau **byr**, ni cheir unrhyw adroddiadau pwnc.

Ar gyfer arolygiadau **safonol**, ceir adroddiadau ar chwe phwnc hefyd.

Ar gyfer arolygiadau **llawn**, ceir adroddiadau ar bob pwnc hefyd.

Estyn sy'n penderfynu pa fath o arolygiad y bydd ysgol yn ei gael, yn bennaf ar sail ei pherfformiad yn y gorffennol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cael arolygiad safonol. Mae pob ysgol feithrin, ysgol arbennig, unedau cyfeirio disgyblion ac unrhyw ysgol newydd neu ysgol sydd wedi uno yn cael arolygiad llawn. Cafodd yr ysgol hon arolygiad **lawn.**

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Sector cynradd:

Blwyddyn	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Sector uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn ymdrin â phedwar cyfnod allweddol fel a ganlyn:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Cynnwys	**Tudalen**

Cyd-destun	**1**
Crynodeb	**2**
Argymhellion	**6**
Safonau	**6**
Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	6
Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant	**9**
Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	9
Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	10
Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	12
Arweinyddiaeth a rheolaeth	**14**
Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?	14
Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	15
Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	16
Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu	**17**
Saesneg	17
Cymraeg ail iaith	18
Mathemateg	19
Gwyddoniaeth	20
Technoleg gwybodaeth	21
Dylunio a thechnoleg	22
Ieithoedd tramor modern	22
Hanes	23
Daearyddiaeth	24
Celf	25
Cerddoriaeth	26
Addysg gorfforol	27
Addysg grefyddol (yn cynnwys astudiaethau crefyddol)	28
Ymateb yr ysgol i'r arolygiad	**28**
Atodiadau	29
1 Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol	29
2 Data a dangosyddion ysgol	29
3 Canlyniadau asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol	30
4 Sail dystiolaeth yr arolygiad	30
5 Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu	31

Cyd-destun

Natur y darparwr

1 Mae Ysgol Heol Goffa yn darparu addysg ar gyfer hyd at 75 o ddysgwyr rhwng tair ac 19 blwydd oed sydd ag anawsterau dysgu difrifol, ddwys neu luosog.

2 Mae gan yr holl ddysgwyr ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig (AAA).

3 Mae panel lleoli'r awdurdod lleol (ALl) yn argymell yr ysgol fel darpariaeth addas ac yn hysbysu'r rhieni a'r ysgol. Mae panel derbyn yr ysgol yn trafod y dysgwyr ac yn dyrannu llefydd pan yn briodol. Gwahoddir rhieni i ymweld â'r ysgol ac yn hwyrach i gyfranogi yn y broses pontio.

4 Ar fynediad i'r ysgol, ceir ystod eang o gyrhaeddiad disgyblion; mae hyn yn ddibynnol ar oed a gallu ar fynediad ac yn amrywio rhwng lefelau P1 a 3 o'r cwricwlwm cenedlaethol (CC).

5 Daw thua 64% o'r dysgwyr o ardal Llanelli tra bod y 36% arall yn dod o ardaloedd eraill yn y sir, rhai mor bell â Manordeilo, Hendy-gwyn ar Dâf, San Clêr a Phencader. Daw 3% o'r dysgwyr o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn brif iaith, a daw 3% pellach o gartrefi lle nad yw'r Gymraeg na'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt. Daw 94% o'r dysgwyr o gartrefi lle mae'r Saesneg yn brif iaith.

6 Mae diweithdra yn ardal Llanelli yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol a chaiff hyn ei adlewyrchu yn y 35% o ddysgwyr sydd â'r hawl i brydau ysgol am ddim.

7 Mae wyth o'r dysgwyr yn yr ysgol dan ofal yr ALl.

8 Rhoddir y dysgwyr mewn grwpiau yn ôl eu hoed. Caiff y rhai sydd ag anghenion synhwyraidd eu rhoi yn yr uned amlsynhwyraidd ond gellir eu symud i addysg brif ffrwd ar gyfnod hwyrach. Mae'r holl drefniadau yn hyblyg ac yn gallu amrywio yn ôl yr amgylchiadau. Caiff dysgwyr o bob dosbarth eu dynodi ar gyfer addysgu arbenigol a therapïau ac amserlennir yn unol â hynny.

9 Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r ysgol wedi penodi dirprwy bennaeth newydd, oedd eisoes yn aelod o'r staff, a phenodi dau aelod newydd i'r uwch dîm rheoli (UDRh), un athro ac un cynorthwyydd addysgu lefel uwch (CALU) sydd hefyd yn aelod o'r corff llywodraethu.

Blaenoriaethau a thargedau'r ysgol

10 Yn ei datganiad o amcanion, mae'r ysgol yn dyheu i fod yn gymuned hapus a dirgrynol sydd yn rhoi anghenion a diddordebau ei dysgwyr wrth galon ei gwaith er mwyn eu helpu i gyrraedd eu potensial llawn. I wneud hyn, mae'n bwriadu gweithio mewn partneriaeth gyda rhieni a gyda phobl broffesiynol eraill i ddarparu addysg o'r ansawdd uchaf a chwricwlwm eang, cytbwys a pherthnasol sydd yn seiliedig ar ddysgu ymarferol. Mae'r ysgol hefyd yn rhoi pwyslais ar ddatblygiad personol dysgwyr, datblygu eu medrau cyfathrebu'n effeithiol ac i'w paratoi ar gyfer hamdden, adloniant a byd gwaith, gan arwain at y radd uchaf posibl o annibyniaeth i bob unigolyn.

Crynodeb

11 Mae Ysgol Heol Goffa yn ysgol dda iawn a chanddi nifer fawr o nodweddion rhagorol. Bu cynnydd rhagorol ers yr arolygiad diwethaf yn 2004 ac mae'r ysgol wedi ymdrin â'r holl faterion allweddol mewn dull hynod o effeithiol.

12 Mae'r tîm arolygu yn cytuno gyda chwech o'r arfarniadau a wnaed gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu, fodd bynnag, dyfarnodd Radd 2 i gwestiwn allweddol 4. Mae hwn un radd yn is na'r Radd 1 a ddyfarnwyd i'w hun gan yr ysgol. Er bod y tîm arolygu wedi nodi'r nodweddion rhagorol yn ansawdd y gofal, y gefnogaeth a'r cyfarwyddyd a gynigir gan yr ysgol, nid oedd, fodd bynnag, digon o nodweddion rhagorol yn ei darpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol ac yn ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer cyfleoedd cyfartal.

13 Nododd y tîm arolygu'r safonau cyflawniad uchel a'r cynnydd parhaus a wnaed gan ddysgwyr, ansawdd rhagorol yr addysgu a'r profiadau cwricwlaidd, yn ogystal â'r lefelau hynod effeithiol o arweinyddiaeth a rheolaeth sydd yn amlwg yn yr ysgol.

Tabl o'r graddau a ddyfarnwyd

14 Roedd y graddau a ddyfarnwyd gan y tîm arolygu fel a ganlyn:

Cwestiwn Allweddol		Gradd arolygu
1	Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	1
2	Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	1
3	Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	1
4	Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	2
5	Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?	1
6	Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	1
7	Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	1

Safonau cyflawniad

15 Mae safonau cyflawniad dysgwyr, yn seiliedig ar arsylwi 43 o wersi, fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
32%	63%	5%	0%	0%

16 Yn y rhan fwyaf o wersi a arsylwyd, mae dysgwyr yn cyflawni safonau sydd â nodweddion da a dim diffygion pwysig. Roedd nodweddion rhagorol mewn tua thraean o'r gwersi hyn.

17 Gan fod llai na phump o blant dan bump oed wedi eu cofrestru yn yr ysgol adeg yr arolygiad, nid yw'r tîm arolygu wedi adrodd ar eu safonau cyflawniad. Mae ansawdd gyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer y plant dan bump yn briodol i'w hanghenion a gwna'r plant gynnydd da tuag at ganlyniadau'r Cyfnod Sylfaen.

Graddau ar gyfer safonau yn y pynciau a arolygwyd

Maes arolygu	CA1	CA2	CA3	CA4	16+
Saesneg	2	2	2	2	2
Cymraeg ail iaith	2	2	2	2	2
Mathemateg	1	1	1	1	1
Gwyddoniaeth	2	1	1	1	1
Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu	2	2	2	2	1
Dylunio a thechnoleg	2	2	2	2	2
Ieithoedd tramor modern	D/B	D/B	2	D/B	D/B
Hanes	2	2	2	2	2
Daearyddiaeth	2	1	1	1	1
Celf a dylunio	1	1	1	1	1
Cerddoriaeth	2	2	2	2	2
Addysg gorfforol	1	1	1	1	1
Addysg grefyddol (yn cynnwys astudiaethau crefyddol)	2	2	2	2	2

18 Nid yw'n briodol cymharu lefelau cyrhaeddiad dysgwyr yn y profion diwedd cyfnod allweddol a'r arholiadau gyda chyfartaleddau lleol neu genedlaethol, gan fod yr ysgol yn darparu ar gyfer dysgwyr sydd â'u gallu a'u hanghenion addysgol arbennig yn anodd eu cymharu.

19 Trwy gydol yr arolygiad hwn, arfarnwyd cyflawniadau a chynnydd y dysgwyr yn ôl eu lefelau cyrhaeddiad blaenorol a'r targedau a osodir ar eu cyfer yn eu cynlluniau addysgol unigol (CAUau).

20 Gwna bron pob dysgwr cynnydd da iawn yn unol â'u gallu, gan gynnwys y dysgwyr hynny sydd ag anawsterau dysgu dwys a lluosog (PMLD). Mae safonau cyflawniad yn uchel o ran cyrraedd y targedau dysgu cytunedig ac yn eu cynnydd cyffredinol wrth ddysgu.

21 Dengys bron yr holl ddysgwyr ymagweddau cadarnhaol tuag at eu tasgau a'u gweithgareddau, a dangosant safonau rhagorol yn y cynnydd a wnânt mewn gwersi. Dangosant ymagweddau cadarnhaol iawn a brwdfrydedd tuag at ddysgu ac mae hyn yn eu cynorthwyo i wneud cynnydd da iawn ym mhob agwedd o ddysgu, gan gynnwys eu datblygiad personol a chymdeithasol. I nifer o ddysgwyr, gall fod y cyflawniadau hyn yn fechan, ond maent yn dynodi llwyddiant wrth wneud cynnydd mesuradwy ac adnabyddadwy tuag at ddiwallu'r targedau a ddynodir yn eu CAUau.

22 Dengys dysgwyr yng nghyfnod allweddol (CA) 4 gyrhaeddiad da mewn cyrsiau achrededig priodol trwy amrediad o gymwysterau yng nghwrs ASDAN a chwrs Medrau Bywyd OCN. Mae ychydig o ddysgwyr hefyd wedi bod yn llwyddiannus wrth ennill cymwysterau yn rhaglen Medrau Allweddol Cyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC).

23 Mae bechgyn a merched yn cyflawni'r un mor dda, a gwna'r plant a ofelir amdanynt hefyd gynnydd da ar draws yr ysgol.

24 Dangosa bron yr holl ddysgwyr ddatblygiad da yn eu medrau sylfaenol ac allweddol ar draws y rhan fwyaf o feysydd dysgu. Gwna llawer o'r dysgwyr ddefnydd effeithiol o ystod eang o gymhorthion cyfathrebu, gan gynnwys

technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), i'w galluogi i ryngweithio'n hyderus gydag eraill.

25 Mae'r cynnydd a gyflawnir gan bron yr holl ddysgwyr yn eu medrau personol a chymdeithasol yn ogystal â'u hymddygiad yn rhagorol. Maent yn perthnasu'n dda iawn i'w gilydd, yn ogystal ag ymwelwyr ac oedolion eraill sydd yn dod i'r ysgol.

26 Gwna bron yr holl ddysgwyr gynnydd rhagorol yn eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Maent yn cymryd rhan weithredol mewn addoli ar y cyd a dangosant barch tuag at wahanol gefndiroedd y dysgwyr eraill.

27 Gwna llawer o ddysgwyr ddefnydd da iawn o'u medrau meddwl i ymateb yn briodol i fedrau datrys problemau a gwneud penderfyniadau syml. Mae'r dysgwyr mwy galluog yn cyfrannu'n dda i'r cyngor ysgol lle dangosant eu bod yn datblygu agweddau da a chydweithredol o waith tîm, a dangosant hyder wrth annerch eraill wrth roi cyflwyniad TGCh.

28 Mae llawer o ddysgwyr yn cymryd rhan weithredol mewn ystod o weithgareddau chwaraeon ac yn mabwysiadu agwedd gadarnhaol iawn tuag at ddull iachus o fyw, cadw'n heini a deall pwysigrwydd hylendid personol. Mae cyfartaledd ffigurau presenoldeb yr ysgol yn uwch na'r rhai a gofnodwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf gyda dros eu hanner yn uwch na 95%.

29 Caiff dysgwyr eu paratoi'n dda iawn ar gyfer bywyd ar ôl ysgol; maent yn cyfranogi'n llawn yn ei lleoliadau profiad gwaith, ac mae eu rhan weithredol mewn gweithgareddau yn y gymuned yn nodwedd ragorol.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

30 Barnwyd ansawdd yr addysgu yn y 43 o wersi a arsylwyd, fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
35%	60%	5%	0%	0%

31 Mae nodweddion rhagorol mewn dros draean o'r gwersi hyn. Mae'r rhain yn amlwg pan fod athrawon yn sefydlu amgylchedd addysgu a dysgu hynod gadarnhaol a chefnogol a chaiff gwersi eu haddasu mewn dull hynod ddychmygus ac effeithiol i ddiwallu anghenion amrywiol y dysgwyr. Nodwyd nodweddion rhagorol pellach wrth i athrawon atgyfnerthu prif bwyntiau gwers, monitro cynnydd dysgwyr yn erbyn eu targedau ar draws y gwersi a gwneud defnydd effeithiol iawn o amrediad eang o adnoddau a gweithgareddau priodol.

32 Mae'r cynorthwywyr addysgu yn darparu cefnogaeth ragorol ac yn llwyr ymwybodol o anghenion y dysgwyr a'r dulliau gorau o'u cefnogi.

33 Caiff prosesau asesu'r ysgol eu rheoli'n dda, a darparant wybodaeth werthfawr, gaiff ei ddefnyddio'n effeithiol i oleuo'r cynllunio.

34 Mae'r modd mae cwricwlwm yr ysgol wedi ei addasu i ddiwallu anghenion ac amrediad y dysgwyr yn nodwedd ragorol. Caiff hyn ei gefnogi'n dda iawn trwy gynnwys y medrau sylfaenol ac allweddol, gan gynnwys y medrau meddwl, ar draws yr holl feysydd pwnc a gweithgareddau. Mae amrediad eang o weithgareddau rhagorol oddi ar y safle a thu allan i oriau ysgol, yn ogystal â phrofiadau preswyl, yn cyfrannu'n fawr tuag at wella a chyfoethogi'r cwricwlwm.

35 Mae hyrwyddo addysg yn gysylltiedig â gwaith ac agweddau o ddatblygiad cynaliadwy, mentergarwch a dinasyddiaeth fyd-eang i gyd yn nodweddion rhagorol.

36 Darpara'r ysgol gefnogaeth a gofal da iawn i'w dysgwyr, ac mae rhaglen a gynlluniwyd hefyd yn dda iawn gogyfer â helpu dysgwyr newydd ymgartrefu yn yr ysgol. Derbynia'r holl ddysgwyr brofiadau a chefnogaeth dda iawn tuag at ddatblygu eu cynnydd cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol. Mae gan bob aelod o'r staff ymwybyddiaeth a dealltwriaeth dda iawn o bwysigrwydd y fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh). Mae'r holl ddysgwyr yn gwybod y medrant droi at unrhyw aelod o'r staff i drafod unrhyw fater personol a byddant yn derbyn cefnogaeth a chyfarwyddyd rhagorol yn hyn o beth.

37 Derbynia'r dysgwyr gyfarwyddyd da iawn gan y staff mewn iechyd a hylendid personol, yn ogystal ag yn yr hyrwyddo o'u lles a'u ffitrwydd cyffredinol. Mae'r cyfarwyddyd a'r gefnogaeth a dderbynia'r dysgwyr o ran eu haddysg bersonol a chymdeithasol a'u cynlluniau gyrfa, yn diwallu gofynion Llwybrau Dysgu 14-19, ac yn cyfrannu'n fawr tuag at gynyddu eu hyder a'u hunan-barch.

38 Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Fodd bynnag, mae'r mynediad cyfyng i wasanaethau arbenigol, megis darpariaeth therapi iaith a lleferydd, ffisiotherapi, a chefnogaeth nyrsio yn ddiffyg.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

39 Mae'r pennaeth yn cynnig arweinyddiaeth ragorol a hynod effeithiol i'r ysgol trwy weledigaeth eglur ac amcanion cyfrannol a gwerthoedd sydd yn ffocysu ar y ffordd orau i ymdrin ag anghenion eang ac amrywiol y dysgwyr.

40 Mae'r corff llywodraethu yn cynorthwyo i osod ymdeimlad o bwrpas a chyfeiriad strategol sydd wedi ei gynllunio'n dd ar gyfer datblygiad a gwelliant yr ysgol. Mae eu hymglymiad gweithredol yn eu galluogi i weithredu'n effeithiol fel cyfeillion beirniadol i'r ysgol.

41 Gwna'r ysgol ymrwymiad cryf iawn tuag at ddatblygu staff, ac mae'n darparu cyfleoedd hyfforddi rhagorol sydd yn cael effaith cadarnhaol ar safonau.

42 Mae datblygiad yr ysgol o'u hardaloedd allanol yn nodweddion rhagorol ac yn cyfrannu'n fawr tuag at wella amrediad y cyfleoedd addysgu a dysgu. Fodd bynnag, mae'r gofod cyfyng o fewn rhai ardaloedd yn yr ysgol yn cyfyngu ar yr amrediad o weithgareddau y gellir eu darparu.

43 Ar y cyfan, mae'r adnoddau a ddefnyddir yn yr ysgol o ansawdd uchel, a chaiff y rhain eu haddasu'n effeithiol iawn i ddiwallu anghenion y dysgwyr. Fodd bynnag, mae'r cyfleuster ar gyfer hydrotherapi wedi ei leoli rhai milltiroedd i ffwrdd sydd yn gorfodi dysgwyr i deithio mewn bws mini, yn aml ar ôl cael eu cludo i'r ysgol yn yr un modd. Mae hwn yn ddiffyg.

44 Mae proses hunan arfarnu'r ysgol yn drylwyr ac yn dynodi'r amrywiol nodweddion da o fewn yr ysgol. Mae'r modd y caiff data perfformiad dysgwyr eu cymedroli, ei ddadansoddi a'i ddefnyddio i wella'r deilliannau dysgu yn rhagorol.

45 Mae gan yr holl staff ddealltwriaeth dda iawn o'r broses hunan arfarnu ac mae'r ysgol yn hyrwyddo ethos iachus o welliannau parhaus. Mae'n cymryd sylw da iawn o safbwyntiau'r rhai sydd yn rhan weithredol o'r ysgol.

46 Yn gyffredinol, mae'r ysgol yn darparu gwerth rhagorol am arian.

Argymhellion

47 Er mwyn gwella'r ysgol ymhellach, mae angen i'r llywodraethwyr a'r pennaeth gynnal trafodaethau gyda'r awdurdodau perthnasol er mwyn:

A1 sicrhau'r mynediad eithaf i wasanaethau arbenigol ar gyfer therapi iaith a lleferydd, ffisiotherapi a'r ddarpariaeth o gefnogaeth nyrsio, a

A2 ymdrin â'r diffygion a nodwyd yn yr adeiladau ac yn y trefniadau ar gyfer y ddarpariaeth o hydrotherapi.

Mae'r corff llywodraethol yn gyfrifol am ddiwygio'i gynllun datblygu cyfredol i ymgorffori camau i ymateb i'r argymhellion ymhen 45 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad, gan ddangos yr hyn y mae'r ysgol am ei wneud ynglŷn â'r argymhellion. Bydd y cynllun hwn, neu grynodeb ohono, yn cael ei ddosbarthu i bob rhiant yn yr ysgol.

Safonau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

48 Yn ei hadroddiad hunan arfarnu, dyfarnodd yr ysgol Radd 1 i'r cwestiwn allweddol hwn. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cytuno gyda'r arfarniadau a wnaed gan yr ysgol.

49 Dros gyfnod o amser, gwna'r holl ddysgwyr gynnydd rhagorol yn unol â'u hanghenion dynodedig.

50 Mae safonau cyflawniad dysgwyr, yn seiliedig ar arsylwi 43 o wersi, fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
32%	63%	5%	0%	0%

51 Yn y rhan fwyaf o wersi a arsylwyd, mae dysgwyr yn cyflawni safonau sydd â nodweddion da a dim diffygion pwysig. Roedd nodweddion rhagorol mewn 32% o'r gwersi hyn.

52 Nid yw'n briodol cymharu lefelau cyrhaeddiad dysgwyr yn y profion diwedd cyfnod allweddol a'r arholiadau gyda chyfartaleddau lleol neu genedlaethol, gan fod yr ysgol yn darparu ar gyfer dysgwyr sydd a'u gallu a'u hanghenion addysgol arbennig yn anodd eu cymharu. Trwy gydol yr arolygiad hwn, arfarnwyd cyflawniadau a chynnydd y dysgwyr yn ôl eu lefelau cyrhaeddiad blaenorol a'r targedau a osodir ar eu cyfer yn eu CAUau.

53 Gan fod llai na phump o blant dan bump oed wedi eu cofrestru yn yr ysgol adeg yr arolygiad, nid yw'r tîm arolygu wedi adrodd ar eu safonau cyflawniad. Mae ansawdd gyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer y plant dan bump yn briodol i'w hanghenion a gwna'r plant gynnydd da tuag at ganlyniadau'r Cyfnod Sylfaen.

Graddau ar gyfer safonau yn y pynciau a arolygwyd

Maes arolygu	CA1	CA2	CA3	CA4	16+
Saesneg	2	2	2	2	2
Cymraeg ail iaith	2	2	2	2	2
Mathemateg	1	1	1	1	1
Gwyddoniaeth	2	1	1	1	1
Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu	2	2	2	2	1
Dylunio a thechnoleg	2	2	2	2	2
Ieithoedd tramor modern	D/B	D/B	2	D/B	D/B
Hanes	2	2	2	2	2
Daearyddiaeth	2	1	1	1	1
Celf a dylunio	1	1	1	1	1
Cerddoriaeth	2	2	2	2	2
Addysg gorfforol	1	1	1	1	1
Addysg grefyddol (yn cynnwys astudiaethau crefyddol)	2	2	2	2	2

54 Mae safonau cyflawniad yn dda neu well yn yr holl bynciau, gydag ymhell dros draean (42%) o'r rhain wedi eu harfarnu â nodweddion rhagorol.

55 Gwna bron pob ddysgwr cynnydd da iawn yn unol â'u gallu, tuag at ddiwallu'r targedau a osodir yn eu CAUau. Gwna'r holl ddysgwyr sydd â PMLD gynnydd rhagorol, ymatebant yn dda iawn mewn gwersi ac mewn rhai achosion dônt i gyfrannu'n llawn mewn agweddau penodol ohonynt. Mae bechgyn a merched yn cyflawni'r un mor dda, a gwna'r plant a ofelir amdanynt gan yr ALl hefyd gynnydd da. Nid oes unrhyw grŵp canfyddadwy o ddysgwyr sydd â'u cyflawniadau yn arwyddocaol wahanol i gyflawniad eu cymheiriaid.

56 Dengys dysgwyr yn CA4 gyrhaeddiad da mewn cyrsiau achrededig priodol trwy Gynllun Gwobrwyo Ieuenctid ASDAN a chwrs Medrau Bywyd OCN. Mae ychydig o ddysgwyr yn cyflawni cymwysterau Medrau Allweddol.

57 Gwna bron yr holl ddysgwyr gynnydd da yn eu medrau sylfaenol ac allweddol. Gwna llawer o ddysgwyr ddefnydd effeithiol o ystod eang o gymhorthion cyfathrebu, gan gynnwys TGCh, i'w galluogi i gyfathrebu'n hyderus gydag eraill. Mae llawer o rhai eraill yn ymateb yn gadarnhaol i strategaethau megis arwyddo a defnyddio symbolau. Wrth i ddysgwyr symud drwy'r ysgol, maent yn datblygu a gwella eu medrau cyfathrebu ymhellach.

58 Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn caffael strategaethau priodol i weithio'n annibynnol yn yr ysgol ac yn y gymuned ehangach. Gwrandawant yn dda ar y staff gan ddilyn cyfarwyddiadau'n ofalus. Mae rhai o'r dysgwyr mwy galluog yn darllen testunau syml yn annibynnol ac yn canfod gwybodaeth ar bynciau penodol, neu wrth ddarllen bwydlen neu restr siopa. Gwna'r dysgwyr eraill gynnydd da a dangosant gynnydd parhaus yn eu medrau sylfaenol a cyn-darllen.

59 Mae bron yr holl ddysgwyr yn astud iawn ac ymatebant i sgyrsiau, trafodaethau a cheisiadau yn briodol mewn amrywiaeth o ffyrdd, trwy siarad, ystumiau neu symudiadau'r corff. Maent yn awyddus iawn i gyfranogi a dangosant gryn frwdfrydedd wrth gymryd rhan yn eu gweithgareddau.

60 Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr mwy galluog yn ysgrifennu paragraffau byr ac yn derbyn cymorth da i wneud hyn. Maent hefyd yn defnyddio'u medrau rhifedd yn hyderus mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn tebyg megis siopa.

61 Defnyddia llawer o ddysgwyr, o alluoedd amrywiol, amrediad o TGCh i gefnogi eu dysgu. Dyfarnwyd Marc Ansawdd yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol i'r ysgol am y trydydd tro yn 2008.

62 Ymateba'r mwyafrif o ddysgwyr yn briodol i gyfarchion Cymraeg sylfaenol, yn bennaf trwy weithred neu ystumiau. Mae'r rhai sydd yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf yn ymateb yn briodol a chywir i gymalau sylfaenol bob dydd trwy ddatgan eu bod yn yr ysgol.

63 Mae'r cynnydd a gyflawnir gan bron yr holl ddysgwyr yn eu medrau personol a chymdeithasol yn ogystal â'u hymddygiad yn rhagorol. Mae llawer ohonynt yn perthnasu'n dda i'w gilydd, yn ogystal ag ymwelwyr ac oedolion eraill sydd yn dod i'r ysgol. Dangosant safonau rhagorol mewn datblygiad personol yn nhermau agweddau a medrau cymdeithasol megis wrth fwyta prydau bwyd a chymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gymuned.

64 Gwna bron yr holl ddysgwyr, gwaeth beth eu galluoedd, gynnydd rhagorol yn eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Maent yn cymryd rhan weithredol mewn addoli ar y cyd a dangosant barch tuag at wahanol gefndiroedd y dysgwyr eraill.

65 Mae llawer o ddysgwyr yn deall pa mor dda maent yn ei wneud ac yn trafod eu cynnydd yn erbyn targedau penodol gyda'u hathrawon ar ddiwedd pob diwrnod ysgol. Maent yn cymryd rhan yn frwdfrydig, yn gweithio'n dda pan gânt eu cynnal gan y staff ac yn rhyngweithio'n gwrtais gyda dysgwyr eraill.

66 Gwna llawer o ddysgwyr ddefnydd da iawn o'u medrau meddwl i ymateb yn briodol i fedrau datrys problemau a gwneud penderfyniadau syml, megis dewis eitemau am bryd o fwyd neu ddewis lliw yn eu gwersi celf. Mae'r dysgwyr mwy galluog yn cyfrannu'n dda i'r cyngor ysgol lle dangosant eu bod yn datblygu agweddau da o waith tîm, neu ennill hyder wrth roi cyflwyniad TGCh.

67 Mae cyfartaledd ffigurau presenoldeb yr ysgol yn uwch na'r rhai a gofnodwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf gyda chyfran fawr o ddysgwyr gyda phresenoldeb sydd yn uwch na 92%, gyda dros hanner yn uwch na 95%. Dim ond ychydig o ddysgwyr gyda lefelau isel o bresenoldeb sydd yn gostwng ffigur cyfartaledd presenoldeb yr ysgol gyfan.

68 Mae llawer o ddysgwyr yn cymryd rhan weithredol mewn ystod o weithgareddau chwaraeon. Mae hyn yn nodwedd ragorol ac yn llwyddiannus wrth hyrwyddo ymagwedd gadarnhaol iawn tuag at fabwysiadu dull iachus o fyw, cadw'n heini a phwysigrwydd hylendid personol. Gwnânt gynnydd da tuag at eu targedau personol a chymdeithasol ac yn sefydlu medrau cymdeithasol da iawn, yn dangos parch at eraill ac yn datblygu arferion personol da.

69 Mae llawer o ddysgwyr yn cymryd rhan weithredol yn y gymuned, megis siopa yn y siopau lleol neu ymweld â'r traeth lleol. Dangosant ymdeimlad cryf o sut i wella cymuned eu hysgol a'i hamgylchedd.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

70 Yn ei hadroddiad hunan arfarnu, dyfarnodd yr ysgol Radd 1 i'r cwestiwn allweddol hwn. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cytuno gyda'r arfarniadau a wnaed gan yr ysgol.

71 Barnwyd ansawdd yr addysgu yn y 43 o wersi a arsylwyd, fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
35%	60%	5%	0%	0%

72 Darpara'r athrawon addysgu o ansawdd dda iawn ar draws bron yr holl bynciau. Mae nodweddion rhagorol mewn dros draean o'r gwersi hyn. Mae'r rhain yn amlwg pan fod athrawon yn:

- sefydlu amgylchedd addysgu a dysgu hynod gadarnhaol a chefnogol, o fewn yr ysgol ac mewn gweithgareddau allanol sydd yn gwella dealltwriaeth dysgwyr o lawer o faterion caiff eu haddysgu yn y gwersi;
- esbonio amcanion y gwersi'n eglur i'r dysgwyr ac yn eu haddasu mewn dull hynod ddychmygus ac effeithiol i ddiwallu anghenion amrywiol y dysgwyr;
- atgyfnerthu prif bwyntiau gwers i sicrhau fod dysgwyr yn cofio ac yn cadw'r agweddau mwyaf pwysig, gan fonitro ac arfarnu cynnydd dysgwyr ar draws y gwersi;
- dangos gwybodaeth dda iawn o feysydd pwnc, yn ogystal â'r amrywiol ffyrdd y gellid ymdrin ag anghenion y dysgwyr trwy wneud defnydd effeithiol iawn o amrediad eang o adnoddau a gweithgareddau priodol; a
- gwirio cynnydd disgyblion yn erbyn eu targedau unigol, fel y dynodwyd yn eu CAUau ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i helpu cynllunio gweithgareddau pellach sydd yn briodol.

73 Mae tîm o gynorthwywyr addysgu ymroddedig, sydd yn adnabod y dysgwyr yn dda, yn darparu cefnogaeth o ansawdd uchel i'r dysgwyr a'r staff addysgu. Mae'r athrawon a'r cynorthwywyr addysgu yn gweithio'n hynod effeithiol fel tîm, gyda'r cynorthwywyr yn sicrhau fod pob dysgwr yn cael y cyfle i ffocysu a chanolbwyntio ar y gwersi a'r gweithgareddau.

74 Gwelir nodweddion da yn yr addysgu pan fod athrawon yn cynllunio'u gwersi'n eglur gan ddangos trefnu strwythuredig o gamau cyflawniadwy, sydd yn helpu dysgwyr ddeall pa mor dda maent yn ei wneud.

75 Mae bron yr holl athrawon yn diweddaru eu gwybodaeth o ddatblygiadau diweddar mewn addysgu trwy fynychu cyrsiau hyfforddiant sydd yn cyfrannu'n arwyddocaol dda tuag at ansawdd uchel yr addysgu.

76 Dengys y rhan fwyaf o wersi gyflymder da gydag amrywiaeth priodol o dasgau a gweithgareddau sydd yn cynnal diddordeb a chymhelliant dysgwyr o bob gallu.

77 Defnyddia'r mwyafrif o athrawon adnoddau TGCh yn briodol i gefnogi'r addysgu a'r dysgu, ac mae llawer yn hyrwyddo medrau meddwl yn effeithiol trwy ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr wneud dewisiadau a gwneud penderfyniadau.

78 Mae'r holl staff yn gosod safon uchel ar gyfer ymddygiad mewn gwersi ac yn sicrhau fod yr holl ddysgwyr, gwaeth beth eu hanghenion, rhyw neu gefndir, yn cael cynnig mynediad llawn i holl weithgareddau'r ysgol.

79 Defnyddia'r athrawon amrywiaeth o gymhorthion cyfathrebu i gefnogi gallu'r dysgwyr i ryngweithio gydag eraill. Maent yn eu cynorthwyo'n effeithiol i ennill hyder i fynegi eu hunain, ac yn cyfrannu'n dda iawn tuag at sefydlu datblygu medrau cyfathrebu'r dysgwyr. Er bod y mwyafrif o athrawon yn hyrwyddo dwyieithrwydd trwy'r defnydd achlysurol o gyfarchion a chymalau Cymraeg priodol, nid yw hyn yn gyson ar draws yr holl weithgareddau a grwpiau oed. Fodd bynnag, mae aelodau o'r staff sydd yn siarad Cymraeg yn darparu cyfleoedd da i'r dysgwyr hynny sydd yn dod o gartrefi sydd yn bennaf Cymraeg eu hiaith.

80 Yn yr ychydig o wersi lle nodwyd diffygion, mae:

- cynllunio annigonol ar gyfer agweddau penodol o wersi;
- cyfleoedd cyfyngedig i ddefnyddio TGCh;
- anghysondebau yn y defnydd o arwyddo fel modd o gyfathrebu;
- cyfleoedd annigonol i ddatblygu medrau dwyieithog dysgwyr; a
- cyflwyniadau gwersi yn rhy hir, gyda diffyg eglurdeb mewn ychydig o gyfarwyddiadau i ddysgwyr.

81 Mae'r staff yn asesu anghenion a chyflawniadau dysgwyr yn deg, yn rheolaidd ac yn gywir. Caiff cynnydd ei dracio dros amser ac mae gwybodaeth asesu yn goleuo'r cynllunio ar lefel dysgwr unigol.

82 Caiff data asesu hefyd ei gymedroli, safoni a'i ddadansoddi ar lefel ysgol-gyfan ac yn goleuo'r cynllunio tymor canolig a hir lle o ganlyniad mae strategaethau addysgu a chefnogi wedi gwella. Mae'r modd caiff data perfformiad disgyblion ei gymedroli, ei ddadansoddi a'i ddefnyddio i wella'r deilliannau dysgu yn nodwedd ragorol.

83 Mae'r gweithdrefnau sydd mewn lle ar gyfer adrodd ar gyflawniadau yn diwallu'r holl ofynion statudol ac mae'r ysgol yn cydymffurfio gyda'r holl brosesau angenrheidiol ar gyfer y cyrff rheoli a ddefnyddir ar gyfer achrediad. Defnyddia'r ysgol amrediad da o lwybrau achredu a gall cyflawniadau dysgwyr gael eu cydnabod gyda gwobrwyon sydd yn unol â'u lefelau gallu.

84 Mae'r dysgwyr yn rhan weithredol lawn o'r broses o arfarnu cynnydd, gan gymryd ystyriaeth o fedrau cyfathrebu a lefelau gallu gwaelodol. Mae gan yr ysgol weithdrefnau da mewn lle ar gyfer hysbysu'r rhai sydd â diddordeb dilys am gynnydd a chyflawniadau'r dysgwyr.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

85 Yn ei hadroddiad hunan arfarnu, dyfarnodd yr ysgol Radd 1 i'r cwestiwn allweddol hwn. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cytuno gyda'r arfarniadau a wnaed gan yr ysgol.

86 Darperir cwricwlwm da iawn ar gyfer y dysgwyr sydd yn cynnig ystod eang o gyfleoedd dysgu sydd wedi eu haddasu'n dda i anghenion unigol. Mae triniaeth hyblyg a phlentyn canolog yr ysgol yn sicrhau fod dysgwyr mwy galluog yn cael cyfleoedd i gyflawni achrediad trwy ASDAN ac Agored Cymru Life Skills a chyrsiau addysgol yn gysylltiedig â gwaith, yn ogystal â chymwysterau Medrau Allweddol CBAC. Darperir rhaglenni addysgol llesol eraill ar gyfer y dysgwyr sydd ag anabledd mwy difrifol. Mae'r ysgol yn weithgar yn y rhwydwaith Llwybrau Dysgu 14-19 lleol; mae hyn wedi ymestyn y cyfleoedd ymhellach i ddysgwyr gan arwain, er enghraifft, at ddysgwr gymryd cwrs Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwch (TGAU) mewn ysgol glwstwr. Mae rhaglen gynhwysfawr yr ysgol o weithgareddau sydd wedi eu cynllunio'n dda er mwyn mwyhau ymwybyddiaeth disgyblion o gyfleoedd gyrfâu yn nodwedd ragorol o gyfarwyddyd tuag at lwybrau posibl yn y dyfodol.

87 Mae'r cynllunio a'r cyflwyno o fedrau sylfaenol ac allweddol yn greiddiol i waith yr ysgol a chaiff ei wneud yn dda iawn. Mae asesiadau manwl o fedrau'r dysgwyr yn ffurfio'r sail ar gyfer cynllunio gweithgareddau dysgu, a chaiff cynnydd dysgwyr ar draws meysydd o'r cwricwlwm ei fonitro a'i arfarnu'n gyson gan staff. Bu'r ysgol wedi bod yn llwyddiannus wrth ennill gwobr yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol am y trydydd tro yn 2008.

88 Mae cydweithio da gyda phroffesiynau eraill yn y datblygiad o fedrau allweddol y dysgwyr, gyda mewnbwn oddi wrth y gwasanaeth nam ar y synhwyrau, therapyddion iaith a lleferydd, ffisiotherapyddion, swyddogion symudedd a'r gwasanaethau cymdeithasol.

89 Mae darpariaeth yr ysgol o weithgareddau y tu allan i oriau ysgol ac oddi ar y safle o'r ansawdd uchaf ac yn nodwedd ragorol o'i gwaith. Mae staff yr ysgol yn rhedeg clwb ar ôl ysgol wythnosol lwyddiannus iawn yn ogystal â chynllun chwarae yn yr haf; mae'r rhain yn darparu profiadau cyfoethog i'r dysgwyr, yn datblygu eu medrau chwarae a chymdeithasol ac yn darparu amser seibiant gwerthfawr iawn i rieni. Ceir ymweliadau cyson i amgueddfeydd, cyngherddau a sioeau cerdd a llefydd o ddiddordeb lleol. Mae arlunwyr a pherfformwyr yn ymwelwyr rheolaidd â'r ysgol yn ogystal â mewnbwn oddi wrth yr heddlu a gwasanaethau cynnal cymunedol eraill.

90 Mae'r dysgwyr yn elwa'n fawr oddi wrth nifer dda iawn o brofiadau preswyl, megis gwersyll yr Urdd yn Llangrannog, lle mae dysgwyr yn mwynhau amrywiaeth o weithgareddau allanol. Mae aros dros nos yng Nghanolfan yr Urdd yng Nghaerdydd hefyd yn helpu hyrwyddo medrau dwyieithog. Mae ymweliadau i Amgueddfa Werin Cymru yn Sain Fagan ac i sioeau yng Nghanolfan Mileniwm Cymru hefyd yn cyfrannu'n dda tuag at ddealltwriaeth o ddiwylliant a threftadaeth Cymru. Mae nifer o'r dysgwyr wedi bod ar dripiau sgïo dramor yn Ewrop, a hefyd wedi cymryd rhan yn llwyddiannus yn y Chwaraeon Olympaidd Gaeaf Arbennig yn Alaska, Siapan ag America. Mae'r rhain yn nodweddion rhagorol sydd yn ymestyn profiadau'r dysgwyr a'u hymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang.

91 Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol y dysgwyr yn dda iawn. Ceir cyfleoedd dyddiol i gymryd rhan mewn addoli ar y cyd ac, yn ystod gwasanaethau ysgol-gyfan, mae dysgwyr yn ymuno gan ganu a gweddïo gyda'i gilydd a chânt gyfleoedd i adlewyrchu ar y byd ehangach o fewn awyrgylch ysbrydol priodol. Mae addoli ar y cyd yn diwallu'r gofynion statudol.

92 Mae rhaglen ABCh yr ysgol yn treiddio bywyd beunyddiol yr ysgol, yn ogystal â chyflwyno gwersi ar wahân, mae'r holl staff yn ymdrin â materion personol a chymdeithasol fel ffocws i'w rhyngweithio gyda'r dysgwyr, ac wrth sicrhau eu lles unigol.

93 Mae'r ysgol yn cynnal perthynas dda gyda'r rhieni. Croesawir y rhieni i'r ysgol ar unrhyw adeg a chânt eu hysbysu'n dda trwy adolygiadau a chylchlythyron, a thrwy weithgareddau megis y Sioe Deithiol Cyfathrebu a gynhaliwyd yn yr ysgol yn ddiweddar. Nodwedd gref iawn o ymroddiad yr ysgol i gefnogi'r rhieni yw'r prosiect dwy flynedd gaiff ei ariannu trwy nawdd 'Datgloi Potensial Ysgolion Arbennig'. Mae dau aelod o staff yr ysgol yn ymweld ag yn cefnogi rhieni yn eu cartrefi. Maent yn eu cynorthwyo i fod yn fwy hyderus ac effeithiol yn eu dyletswyddau fel rhieni, a hefyd yn darparu amrywiaeth o weithgareddau llesol i'r rhieni o fewn yr ysgol.

94 Mae gan yr ysgol gysylltiadau da o fewn y gymuned; darpara busnesau lleol cyfleoedd da iawn ar gyfer addysg yn gysylltiedig â gwaith, ynghyd â rhaglen profiad gwaith sydd wedi ei gynllunio'n dda, mae'r rhain yn nodweddion rhagorol. Mae dysgwyr hefyd yn elwa'n fawr oddi wrth y partneriaethau 14-19 gyda cholegau ac ysgolion lleol. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ymglymiad gyda sefydliadau lleol ar gyfer hyfforddiant cychwynnol i athrawon, ond mae colegau ac ysgolion lleol yn rheolaidd yn lleoli eu myfyrwyr yn yr ysgol fel rhan o'u hyfforddiant. Mae'r hyrwyddo o addysg yn gysylltiedig â gwaith, ynghyd ag agweddau o ddatblygiad cynaliadwy, fel y gwelir yn y datblygiad o'r ardd synhwyraidd, a'r amrywiol fentrau a ymgymerir fel rhan o fentergarwch, i gyd yn nodweddion rhagorol.

95 Mae'r ysgol yn diwallu ei gofynion cyfreithiol a chwrs.

Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd ar gefnogaeth i ddysgwyr?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

96 Yn ei hadroddiad hunan arfarnu, dyfarnodd yr ysgol Radd 1 i'r cwestiwn allweddol hwn. Nid oedd canfyddiadau'r tîm arolygu yn cytuno gyda'r arfarniad a wnaed gan yr ysgol. Er bod y tîm arolygu wedi nodi'r nodweddion rhagorol yn ansawdd y gofal, y gefnogaeth a'r cyfarwyddyd a gynigir gan yr ysgol, nid oedd digon o nodweddion rhagorol yn ei darpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol ac yn ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer cyfleoedd cyfartal.

97 Darpara'r ysgol gefnogaeth a gofal da iawn i'w dysgwyr a hefyd mae'r rhaglen cefnogi a gynlluniwyd yn dda iawn gogyfer â helpu dysgwyr newydd ymgartrefu yn yr ysgol. Mae arsylwi'r dysgwyr yn ystod gwersi ac amser chwarae yn cadarnhau caiff perthnasau cadarnhaol iawn eu ffurfio fel eu bod yn teimlo'n ddiogel yn y wybodaeth y delir â'u hanghenion yn briodol a sensitif.

98 Mae ansawdd partneriaeth yr ysgol gyda'r rhieni a'r gofalwyr yn dda. Rhydd yr ysgol ystyriaeth o'u safbwyntiau caiff eu hadlewyrchu yn y sylwadau cadarnhaol a wnaed gan bron yr holl rieni a gofalwyr yn y cyfarfod cyn-arolwg ag yn holiadur y rhieni ar gyfer yr arolygiad. Mae'r dyddiaduron cartref/ysgol ac achlysuron anffurfiol megis y Ffair Nadolig a'r Diwrnod Gwobrwyo hefyd yn gymorth i gadarnhau partneriaethau da.

99 Mae'r gwaith a gyflawnir gan y cyngor ysgol yn effeithiol wrth hyrwyddo gwneud penderfyniadau cadarnhaol ac ynghyd a'r prosiect eco yn datblygu medrau dinasyddiaeth yn effeithiol.

100 Mae gan yr ysgol rhaglen cynefino hynod effeithiol ac sydd wedi ei chynllunio'n dda ar gyfer dysgwyr o bob oed, sydd yn diwallu eu hanghenion. Ar gyfer dysgwyr ieuanc, mae cysylltiadau da gyda'r grŵp 'SPOT' i fabanod a phlant bach sydd ag anghenion dyrys. Ar gyfer disgyblion hŷn, ceir trefniadau da iawn i'r rhieni ymweld â'r ysgol gyda'u plant, lle gwneir asesiadau manwl, mewn cydweithrediad â'r gwahanol asiantaethau cefnogi. Mae hyn yn gymorth i'r ysgol ddynodi anghenion dysgwyr ar oed cynnar ac yn sicrhau y derbynnir yr holl wybodaeth berthnasol a chaiff ei ddefnyddio i helpu darparu cefnogaeth effeithiol.

101 Mae gan bob aelod o'r staff ymwybyddiaeth a dealltwriaeth dda iawn o bwysigrwydd y fframwaith ABCh ac o ddatblygu hyder a hunan barch y dysgwyr.

102 Mae'r cyfarwyddyd a'r gefnogaeth a dderbynia'r dysgwyr o ran eu ABCh a'u cynlluniau gyrfa, yn diwallu gofynion Llwybrau Dysgu 14-19 yn effeithiol.

103 Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol ac mae'n gweithio'n dda gyda'r rhieni i fonitro presenoldeb dysgwyr. Mae canllawiau eglur i'r staff a'r dysgwyr ar sut mae'r ysgol yn cofnodi ac yn adrodd ar bresenoldeb.

104 Mae gan yr ysgol raglen gynhwysfawr mewn lle, sydd wedi eu cynllunio'n dda, o weithgareddau i ymestyn hunan ymwybyddiaeth, medrau, dewisiadau a chyfleoedd gyrfaol y dysgwyr. Cymerir sylw da o'r Llwybrau Dysgu 14-19 i gefnogi dysgwyr wrth iddynt wneud dewisiadau ar gyfer y dyfodol. Mae'r agweddau hyn yn nodweddion rhagorol o fewn yr ysgol.

105 Derbynia'r dysgwyr gyfarwyddyd da iawn gan y staff mewn iechyd a hylendid personol, yn ogystal ag yn yr hyrwyddo o'u lles a'u ffitrwydd cyffredinol. Mae'r ysgol yn rhan o'r fenter Ysgolion Iach ac wedi cyflawni statws y Faner Werdd. Mae'r holl staff wedi derbyn hyfforddiant cymorth cyntaf priodol ac mae aelodau dynodedig o'r staff wedi eu hyfforddi'n llawn ar gyfer darparu gweithdrefnau meddygol unigol.

106 Mae gan yr ysgol weithdrefnau priodol i sicrhau diogelwch plant. Mae'r holl staff wedi derbyn hyfforddiant trwy'r ALl. Mae gan aelod o'r UDRh ynghyd â'r pennaeth gyfrifoldebau dynodedig ar gyfer materion amddiffyn plant.

107 Mae polisi gwrth-fwlian effeithiol mewn lle a chaiff gweithdrefn cwynion priodol ei esbonio'n eglur ym mhrosbectws yr ysgol.

108 Gwna'r ysgol drefniadau da iawn i ddynodi anghenion ychwanegol unigol ei holl ddysgwyr. Cyn eu derbyn i'r ysgol, cynhelir asesiad amlddisgyblaethol yn effeithiol iawn i sicrhau'r ddarpariaeth gywir a mwyaf priodol i bob disgybl. Cynhelir CAUau da ar gyfer pob dysgwr ac mae'r rhain yn gosod targedau priodol gaiff eu hadolygu'n rheolaidd. Cynhelir adolygiadau blynyddol, fel sy'n ofynnol gan ddatganiadau o AAA, ac mae'r broses yn diwallu gofynion y Cod Ymarfer ar gyfer AAA yn llwyr.

109 Mae llawer o'r dysgwyr wedi eu dynodi ag anawsterau dysgu difrifol (ADD) ond mae gan lawer ohonynt anghenion ychwanegol. Mae'r staff yn defnyddio amrediad o strategaethau priodol ar gyfer dysgwyr sydd ag anghenion ychwanegol sydd yn cynnwys addasu tasgau a gweithgareddau, cefnogaeth

unigol drwy sesiynau neilltuo a'r defnydd effeithiol o gymhorthion cyfathrebu sydd yn cynorthwyo annibyniaeth a dysgu. Mae mentrau newydd ers yr arolygiad diwethaf wedi gwella'r ddarpariaeth cyfathrebu'n sylweddol ar gyfer disgyblion sydd ag anawsterau difrifol a lluosog.

110 Gwneir darpariaeth dda a phriodol ar gyfer dysgwyr sydd â namau amlsynhwyraidd, trwy ddarparu cymorth gan athrawon arbenigol sydd yn ymweld, ac aelod o staff hollol gymwys, sydd yn sicrhau caiff dysgwyr y mynediad gorau at ddysgu. Fodd bynnag, nid oes gan yr ysgol fynediad llawn a digon rheolaidd at wasanaethau arbenigol pwysig eraill megis cefnogaeth iaith a lleferydd a ffisiotherapi, nac ychwaith mynediad digon cyson i wasanaeth nyrs ysgol.

111 Ceir polisïau eglur i ddarparu safonau uchel o ymddygiad. Mae polisïau sydd yn ymdrin â rhyw a pherthnasau, ataliaeth gorfforol a gwrth-fwlian. Mae'r staff yn ymateb yn briodol i dawelu sefyllfaoedd a allai fod yn aflonyddgar sydd yn sicrhau amgylchedd diogel iawn i'r dysgwyr.

112 Mae gan yr ysgol bolisi cyfleoedd cyfartal effeithiol sydd yn helpu dealltwriaeth dysgwyr o gydraddoldeb hiliol. Caiff yr holl ddysgwyr, o bob rhyw a chefndir eu cynnwys yn yr holl weithgareddau, gwaeth beth eu cefndir cymdeithasol, ethnig, addysgol neu ieithyddol. Mae darpariaeth yr ysgol i sicrhau cyfle cyfartal ar gyfer bechgyn a merched yn gryfder.

113 Sicrha polisïau ac arferion yr ysgol caiff achosion o ymddygiad gormesol eu trin o ddifrif a'u dileu. Mae amser cylch, gwersi ABCh a gwasanaethau ysgol yn ffocysu'n effeithiol ar hyrwyddo agweddau cadarnhaol. Mae staff yn atgyfnerthu ymddygiad priodol yn dda iawn, gyda'r defnydd priodol o ganmoliaeth.

114 Mae'r ysgol yn effeithiol wrth ddatblygu dealltwriaeth dysgwyr o gydraddoldeb hiliol. Caiff amrywiaeth diwylliannol ei ddathlu mewn gwasanaethau ysgol, datblygiad ieithoedd tramor modern a thrwy ymweliadau dramor.

115 Mae Ysgol Heol Goffa wedi cynhyrchu Polisi Cydraddoldeb Anabledd a chynllun hygyrchedd effeithiol sydd yn sicrhau nad yw'r dysgwyr yn derbyn unrhyw driniaeth annheg. Mae teclynnau codi wedi eu lleoli'n briodol, gwelyau blodau wedi'u codi a llwybrau i gadeiriau olwyn ond yn ychydig o'r addasiadau rhesymol a wnaed. Yn ychwanegol, mae adolygiadau blynyddol o dechnegau trafod â llaw, yn sicrhau'n effeithiol fod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant priodol.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

116 Yn ei hadroddiad hunan arfarnu, dyfarnodd yr ysgol Radd 1 i'r cwestiwn allweddol hwn. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cytuno gyda'r arfarniadau a wnaed gan yr ysgol.

117 Mae'r pennaeth yn cynnig arweinyddiaeth dda iawn ac ymdeimlad eglur o bwrpas a chyfeiriad i'r ysgol. Caiff ei gefnogi'n dda yn hyn o beth gan y dirprwy bennaeth a'r UDRh. Mae'r staff addysgu a chynnal yn gweithio'n effeithiol fel tîm. Arddangosant ddealltwriaeth dda iawn o nodau ac amcanion yr ysgol y gellir eu

gweld yn y drefniadaeth a'r gweithgareddau dyddiol trefnus, y perthnasau da iawn ymhlith y dysgwyr a'r staff, ac ethos gofalgar a chynhaliol yr ysgol. Mae'r safonau uchel mewn arweinyddiaeth a rheolaeth wedi eu cydnabod wrth i'r ysgol dderbyn achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl yng Ngorffennaf 2009.

118 Mae tîm arweinyddol yr ysgol wedi datblygu diwylliant ac ymroddiad i welliant parhaus o fewn yr ysgol. Caiff yr holl staff eu hannog i gyfrannu tuag at ddynodi meysydd ar gyfer datblygiad yn yr ysgol. Mae systemau da mewn lle i werthuso safonau mewn addysgu a dysgu; mae'r UDRh a'r arweinwyr pwnc yn arsylwi gwersi'n rheolaidd ac yn monitro ac arfarnu safonau a chynnydd. Caiff y dystiolaeth hon ei ddadansoddi'n ofalus a'i gymharu gyda safonau cyflawniad mewn ysgolion tebyg, mae'r tîm arweinyddol yna'n gosod targedau heriol ar gyfer gwelliant, mae hyn wedi bod yn effeithiol wrth godi safonau darpariaeth ar draws yr ysgol.

119 Mae'r ysgol wedi gwneud defnydd da o ariannu gan 'Ddatgloi Potensial Ysgolion' Arbennig i ddatblygu partneriaethau gydag ysgolion lleol, rhieni a cholegau. Mae hyn wedi gwella cyfleoedd ar gyfer cynhwysiad ac i gefnogi rhieni yn eu rôl.

120 Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn gweithio gyda phartneriaid yn y Llwybrau Dysgu 14-19 i hyfforddi staff ac i ddatblygu 'moodle' (rhwydwaith ar-lein ar gyfer dysgu yn y cartref). Mae gan yr ysgol hefyd bartneriaethau llesol gyda Gyrfa Cymru a Mencap a Gwasanaeth Pontio'r sir sydd yn cefnogi a threfnu gweithgareddau a lleoliadau i ddysgwyr ôl-16.

121 Mae trefniadau effeithiol iawn mewn lle i fonitro perfformiad holl aelodau'r staff trwy'r systemau rheoli perfformiad a gwerthuso staff. Mae staff addysgu a chynnal yn ymgymryd ag amrediad eang iawn o hyfforddiant mewn-swydd o ansawdd dda, mae'r staff uwch yn darparu arweiniad a chefnogaeth dda i'w cydweithwyr ac mae'r staff yn cydweithio'n dda, gan rannu arfer da o fewn y tîm ysgol.

122 Mae corff llywodraethu'r ysgol wedi ei hysbysu'n dda ac yn gefnogol. Mae llywodraethwyr yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd ac yn adrodd yn ôl ar eu meysydd dynodedig o gyfrifoldeb i'r corff llywodraethu. Mae llywodraethwyr wedi ymgymryd ag hyfforddiant ac maent yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau, ac maent yn rhan weithredol lawn wrth osod cyfeiriad strategol yr ysgol gyda'r pennaeth. Caiff eu rôl fel cyfeillion beirniadol i'r ysgol ei wella ymhellach trwy ymweliadau dosbarth, eu rhan weithredol mewn penodiadau staff, monitro penderfyniadau gwariant a pholisïau ysgol. Mae'r corff llywodraethu yn cydymffurfio'n llawn gyda'r gofynion statudol a rheoleiddiol.

Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

123 Yn ei hadroddiad hunan arfarnu, dyfarnodd yr ysgol Radd 1 i'r cwestiwn allweddol hwn. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cytuno gyda'r arfarniadau a wnaed gan yr ysgol.

124 Yn ei hadroddiad hunan arfarnu, dyfarnodd yr ysgol Radd 1 i'w hun am bob cwestiwn allweddol. Cytunodd y tîm arolygu gyda'r arfarniadau hyn ar wahân i gwestiwn allweddol 4 a raddiwyd un radd yn is. Ar y cyfan, fodd bynnag, roedd cydweddu da rhwng yr arfarniadau a wnaed gan yr ysgol a rhai'r tîm arolygu.

125 Mae adroddiad hunan arfarnu'r ysgol yn gynhwysfawr ac wedi ei strwythuro'n dda. Mae'n darparu adroddiad manwl o gryfderau'r ysgol a'i meysydd ar gyfer datblygiad.

126 Mae proses hunan arfarnu'r ysgol yn drylwyr, ac mae'n dynodi'n eglur yr amrywiol nodweddion da o fewn yr ysgol. Caiff deilliannau'r broses eu defnyddio'n effeithiol i oleuo cynllun datblygu'r ysgol, ac i ddynodi blaenoriaethau ar gyfer gwelliant ar draws holl agweddau o fywyd ysgol.

127 Mae cylch cynhwysfawr iawn o fonitro, adolygu ac arfarnu a chaiff data asesu'r dysgwyr ei ddefnyddio'n effeithiol o fewn y broses hon. Mae'r modd caiff data perfformiad disgyblion ei gymedroli, ei ddadansoddi a'i ddefnyddio i wella deilliannau dysgu yn rhagorol.

128 Caiff safbwyntiau dysgwyr, rhieni a staff eu casglu'n systematig a'u dadansoddi ac mae'r uwch rheolwyr yn cymryd ystyriaeth weithredol o'r rhain wrth gynllunio ar gyfer gwelliant.

129 Mae gan yr holl staff ddealltwriaeth dda iawn o'r broses hunan arfarnu ac mae'r ysgol yn hyrwyddo ethos iachus o welliant parhaus.

130 Caiff hyfforddiant a chefnogaeth ei gysylltu'n eglur gyda gwella deilliannau i ddysgwyr ac mae dull rheolaethol 'drws agored' yn annog ymdriniaeth greadigol gyda ffocws ar ddatrysiad ar draws yr holl staff.

131 Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r ysgol wedi ymdrin yn llwyddiannus â'r holl faterion allweddol a ddynodwyd ac wedi cynhyrchu tystiolaeth o berfformiad mesuradwy, lle'n briodol.

Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

132 Yn ei hadroddiad hunan arfarnu, dyfarnodd yr ysgol Radd 1 i'r cwestiwn allweddol hwn. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cytuno gyda'r arfarniadau a wnaed gan yr ysgol.

133 Mae datblygiad o ardaloedd allanol yr ysgol yn nodweddion rhagorol sydd yn hyrwyddo dysgu ac addysgu da. Mae'r rhain yn cynnwys ardaloedd amlsynhwyraidd, ardaloedd cwricwlwm, ardaloedd ar gyfer datblygiad corfforol a hefyd ardaloedd lloches y tu allan i ddosbarthiadau. Fodd bynnag, mae diffygion ym maint rhai o'r dosbarthiadau a hefyd ym maint y neuadd, yn enwedig mewn perthynas â'r nifer o ddysgwyr ac mae'r gofod cyfyng yn cyfyngu ar yr amrediad o weithgareddau y gellir eu darparu.

134 Gwna'r ysgol ddefnydd da o'r ardal, trwy'r defnydd o gyfleusterau a siopau lleol i ymestyn y cyfleoedd dysgu. Mae dysgwyr hefyd yn profi ystod o ddiwylliannau eraill trwy eu tripiau dramor.

135 Mae dosbarthiadau arbenigol a ddarperir yn cynnwys ystafell therapi lle derbynia dysgwyr sesiynau Atmosfferig (i ddatblygu'r synhwyrau) a Tac Pac (ymdriniaeth gyffyrddol i gyfathrebu) a'r ystafell chwarae feddal sydd yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr sydd ag anableddau corfforol i ddatblygu eu medrau corfforol. Gwna'r ysgol ddefnydd da o'i hystafell TGCh.

136 Mae'r ddarpariaeth o hyfforddiant mewn-swydd i staff yn nodwedd ragorol sydd yn darparu cyfleoedd da i'r staff ymestyn eu harbenigedd a'u datblygiad proffesiynol. Mae hyn yn cyfrannu'n dda iawn tuag at sicrhau a chynnal lefel uchel o arbenigedd ar draws yr ysgol sydd yn cydweddu anghenion eang ac amrywiol yr holl ddysgwyr.

137 Yn gyffredinol, mae'r adnoddau a ddefnyddir yn yr ysgol o ansawdd uchel, a chaiff y rhain eu haddasu'n effeithiol iawn i gydweddu a diwallu anghenion dysgwyr. Sicrha'r staff caiff yr holl adnoddu eu haddasu'n dda i ddiwallu'r blaenoriaethau ar gyfer datblygiad y dysgwyr. Fodd bynnag, mae'r cyfleuster ar gyfer hydrotherapi wedi ei leoli rhai milltiroedd i ffwrdd sydd yn gorfodi dysgwyr i deithio ymhellach mewn bws mini, yn aml ar ôl cael eu cludo i'r ysgol yn yr un modd. Mae hyn yn ddiffyg. Mae'r ddarpariaeth o bwll hydrotherapi yn hen fater sydd eto i'w ddatrys.

138 Mae'r trefniant o amser cynllunio, paratoi ag asesu (CPA) i athrawon, er mwyn sicrhau ansawdd y ddarpariaeth, wedi ei drefnu'n dda ac yn diwallu'r gofynion statudol. Defnyddia'r athrawon eu hamser CPA i sicrhau caiff addysg o ansawdd dda ei gynllunio a'i ddarparu i'r holl ddysgwyr.

139 Gwnaed trefniadau addas a phriodol ar gyfer ymdrin â materion ailfodelu'r gweithlu a baich gwaith.

140 Ar y cyfan, darpara'r ysgol amgylchedd dysgu ac addysgu ysgogol ac o ansawdd uchel. Mae ansawdd uchel y ddarpariaeth a'r adolygiad rheolaidd o adnoddau yn sicrhau caiff yr amrediad o anghenion dysgwyr eu diwallu'n briodol. Gwna'r holl ddysgwyr gynnydd da tuag at gyflawni eu potensial ac mae deilliannau da iddynt wrth iddynt adael yr ysgol. Mae rheolaeth ysgol ac ariannol o ansawdd uchel, ac mae'r ysgol yn darparu gwerth rhagorol am arian.

Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu

Saesneg

Cyfnod Allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Cyfnod Allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Cyfnod Allweddol 3: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Cyfnod Allweddol 4: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Ôl-16: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

141 Mae dysgwyr ar draws yr holl gyfnodau allweddol yn ymateb yn dda i'r gweithgareddau ysgogol a ddarperir ac mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwrando ar gyfarwyddiadau a storïau ac yn ymateb gyda hyder yn unol â'u hanghenion cyfathrebu dynodedig a'u galluoedd gweithredol gwaelodol.

142 Ar draws yr holl gyfnodau allweddol, dangosa'r dysgwyr lefelau da o gynnydd gyda'u medrau llythrennedd dros amser. Mae amrediad y strategaethau gwahaniaethu a ddefnyddir a'r lleoliad effeithiol o staff ategol, yn enwedig wrth ddiwallu anghenion cyfathrebu arwyddocaol a heriol dysgwyr unigol, yn sicrhau fod y targedau a osodir yn y CAUau yn cael eu diwallu i'r rhan fwyaf o ddysgwyr.

143 Yn CA1, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwrando'n effeithiol ac yn ymateb i geisiadau a chyfarwyddiadau. Arddangosant ystod o fedrau cyn-darllen a chaiff

eu dealltwriaeth o ddarllen ei ddatblygu trwy storïau, canu a gweithgareddau eraill yn gysylltiedig â chwarae. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gallu cynhyrchu peth print ystyrlon neu trwy'r defnydd o symbolau, yn gysylltiedig â'u diddordebau eu hunain. Mae rhai yn gallu dargopïo a throsysgrifo.

144 Mae dysgwyr CA2 yn profi ac yn ymateb i ystod eang o ysgogiadau, gan gynnwys deunydd ysgrifenedig a chlyweledol. Mae'r mwyafrif o ddysgwyr yn cyfathrebu'n eglur gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau, ac mae gan y rhan fwyaf o ddysgwyr dealltwriaeth dda o gonfensiynau cymdeithasol wrth gynnal sgwrs a thrafodaeth.

145 Yn CA3, arddangosa rhai dysgwyr lefel uchel iawn o fedr darllen ac maent yn gallu darllen gyda rhuglder, cywirdeb a dealltwriaeth. Gall rhai defnyddio amrediad o destunau i wahanol ddibenion ac arddangosant lefel dda o fedr wrth gynhyrchu cyflwyniadau i wahanol gynulleidfaoedd gan ddefnyddio TGCh.

146 Mae'r dysgwyr hŷn yn CA4 ac ôl-16 yn parhau i ddatblygu eu medrau a'u dealltwriaeth mewn darllen ac ysgrifennu a defnyddiant gyfleoedd ar gyfer datblygu eu medrau siarad a gwrando'n dda. Mae gan ddysgwyr fynediad at gyfleoedd priodol ar gyfer cymwysterau trwy amrywiaeth o lwybrau, gan gynnwys ASDAN ac i ychydig o ddysgwyr, mynediad i TGAU, trwy gysylltiadau gydag ysgol gyfun leol.

Diffygion

147 Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

Cymraeg ail iaith

Cyfnod Allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Cyfnod Allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Cyfnod Allweddol 3: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Cyfnod Allweddol 4: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Ôl-16: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

148 Ni arsylwyd unrhyw wersi ffurfiol yn ystod yr arolygiad. Mae'r graddau a ddyfarnwyd yn seiliedig ar yr arsylwi o Gymraeg achlysurol yn ogystal â'r archwiliad o waith dysgwyr fel y'u cyflwynwyd yn eu llyfrau a'u ffolderi gwaith.

Nodweddion da

149 Daw bron yr holl ddysgwyr yn gyfarwydd gyda geirfa bob dydd yn y Gymraeg o fewn y drefniadaeth feunyddiol ac ymatebant iddynt yn briodol. Maent yn gwybod geiriau cyfarch cyffredin a defnyddiant y rhain yn effeithiol yn y cyd-destun cywir.

150 Ymateba llawer o ddysgwyr yn dda i gyfarchion yn y Gymraeg yn ystod cofrestru a gwersi, gan wybod pa gymalau i'w defnyddio mewn ymateb i gwestiynau penodol. Mae llawer yn rhifo'n gywir hyd at o leiaf pump gyda chywirdeb cynyddol.

151 Mae llawer o ddysgwyr yn CA1 a CA2 yn gwybod ac yn dynodi'n gywir enwau amrywiol eitemau o fwyd y maent yn eu bwyta yn yr ysgol neu yn eu prynu mewn archfarchnad.

152 Maent yn pwyntio at, neu ddynodi geiriau penodol o fewn story, gan ddangos dealltwriaeth dda.

153 Yn CA3, CA4 ac ôl-16, mae'r mwyafrif o ddysgwyr yn gwybod geiriau syml a ddefnyddir i ddisgrifio'r tywydd, ac yn eu defnyddio'n gywir ar siart i gofnodi'r tywydd yn ddyddiol.

154 Mae'r dysgwyr hŷn yn llenwi holiadur byr ac yn ateb cwestiynau syml am fywyd Santes Dwynwen, gan ddarparu gwybodaeth benodol. Maent yn cymryd eu tro wrth chwarae-rôl trwy ofyn yn eglur am eitemau penodol mewn siop a pharatoi bwydlen i'r caffi gan ddefnyddio'r eirfa gywir.

Diffygion

155 Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

Mathemateg

Cyfnod Allweddol 1:	**Gradd 1:**	**Da gyda nodweddion rhagorol**
Cyfnod Allweddol 2:	**Gradd 1:**	**Da gyda nodweddion rhagorol**
Cyfnod Allweddol 3:	**Gradd 1:**	**Da gyda nodweddion rhagorol**
Cyfnod Allweddol 4:	**Gradd 1:**	**Da gyda nodweddion rhagorol**
Ôl-16:	**Gradd 1:**	**Da gyda nodweddion rhagorol**

Nodweddion rhagorol

156 Ar draws yr holl gyfnodau allweddol, mae dysgwyr yn cyflawni'n dda mewn mathemateg yn unol â'u lefelau o angen dynodedig a'u galluoedd cyfathrebu.

157 Gwna dysgwyr ar draws yr holl gyfnodau allweddol gynnydd da iawn yn y defnydd a'r cymhwyso o rif ac yn eu dealltwriaeth o arian a mesur. Er enghraifft, ar draws nifer o destunau a themâu arloesol, lle mae siopa ar gyfer a'r mesur o, gynhwysion, yn angenrheidiol.

158 Mae'r modd y mae dysgwyr yn datblygu eu medrau mewn rhifedd a mathemateg trwy'r defnydd effeithiol o adnoddau ymarferol ar draws yr ysgol yn rhagorol. Maent hefyd yn defnyddio byrddau gwyn rhyngweithiol yn ddychmygus wrth iddynt ddatblygu eu cysyniadau rhifo a rhif.

Nodweddion da

159 Mae'r holl ddysgwyr yn cyflawni dealltwriaeth o amser ac yn datblygu cysyniadau sydd yn berthnasol i fywyd bob dydd. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gallu rhagfynegi'n hyderus mewn perthynas ag amrediad o brofiadau. Er enghraifft, wrth ragamcanu amseroedd siwrneiau.

160 Ar draws yr holl gyfnodau allweddo, dangosa'r dysgwyr lefelau da o gynnydd mewn mathemateg dros amser a chyflawni eu targedau'n dda.

161 Mae'r dysgwyr ieuengach yn datblygu medrau rhifo trwy weithgareddau ymarferol yn aml yn gysylltiedig â storïau a'r themâu cyfredol ac yn arddangos dealltwriaeth o eirfa fathemategol mewn perthynas â maint a siâp.

162 Yn CA3, mae llawer o ddysgwyr yn adnabod ac yn gallu enwi nifer o siapau cyffredin dau-ddimensiwn ac yn dechrau deall a gweithio gyda siapau tri-dimensiwn. Maent yn adalw gwybodaeth yn hyderus ac yn cymhwyso medrau wrth ddatblygu eu dealltwriaeth o gymesuredd.

163 Mae dysgwyr hŷn yn ôl-16 yn parhau i ddatblygu eu medrau a'u dealltwriaeth o rif ac yn ennill cymwysterau trwy amrywiaeth o lwybrau gan gynnwys y gwaith gydag ASDAN.

Diffygion

164 Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

Gwyddoniaeth

Cyfnod Allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Cyfnod Allweddol 2: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol
Cyfnod Allweddol 3: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol
Cyfnod Allweddol 4: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol
Ôl-16: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

Nodweddion rhagorol

165 Yn CA2, CA3, CA4 ac ôl-16, gwna'r dysgwyr gynnydd rhagorol. Dangosant wybodaeth bellach o wyddoniaeth trwy ymgymryd ag ystod eang o dasgau ymarferol ac ymchwiliol yn hyderus yn y dosbarth, ar ymweliadau ysgol ac ar dir yr ysgol.

166 Yn CA2, mae bron yr holl ddysgwyr yn gallu ymchwilio gwrthrychau sydd angen neu sydd ddim angen trydan. Maent yn ymchwilio grymoedd yn dda ac yn rhagfynegi pa wrthrychau fydd yn suddo neu arnofio.

167 Mae gan y rhan fwyaf o ddysgwyr yn CA3 ddealltwriaeth dda iawn o briodweddau amrediad eang o offer cegin ac yn cynnal arbrawf yn llwyddiannus i weld pa ddeunyddiau sydd yn gwneud y tŷ gorau. Mae gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth dda o rymoedd a mudiant; gwyddant fod gwthio, tynnu a throi i gyd yn rymoedd ar waith.

168 Yn CA4, mae llawer o ddysgwyr yn gwybod y gwahaniaeth rhwng rhagfynegiadau a chasgliadau. Mae'r rhan fwyaf yn ymwybodol o'r angen am 'brawf teg' mewn ymchwiliadau. Mae bron yr holl ddysgwyr yn deall yn dda iawn for rhai deunyddiau'n fagnetig. Mae dysgwyr yn gallu tyfu planhigion ffa ac yn gwybod beth sydd angen ar blanhigion er mwyn tyfu. Maent yn gallu cynhyrchu arddangosfa mur ardderchog a gwnânt gyflwyniad o'u canfyddiadau yng ngwasanaeth yr ysgol.

169 Mae dysgwyr hŷn sydd â PMLD yn arddangos adweithiau rhagorol i greaduriaid bychan megis mwydod a malwod.

170 Mae dysgwyr ôl-16 yn cymhwyso ac ymestyn eu gwybodaeth o wyddoniaeth yn dda iawn yn y gwaith a wnânt yn yr ardd ac ar brosiectau amgylcheddol adre ac yn yr ardal leol.

Good features

171 Yn CA1, mae ymagweddau dysgwyr tuag at wyddoniaeth yn dda. Mae mwyafrif o'r dysgwyr yn gallu dynodi rhai darnau o flodyn. Maent yn tyfu blodau haul o had yn llwyddiannus ac yn gwybod fod planhigion angen dŵr i dyfu yn eu gardd synhwyraidd. Mae dysgwyr ieuanc yn datblygu eu dealltwriaeth o hylendid personol yn dda.

Diffygion

172 Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu

Cyfnod Allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Cyfnod Allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Cyfnod Allweddol 3: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Cyfnod Allweddol 4: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Ôl-16: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

Nodweddion rhagorol

173 Mae llawer o ddysgwyr ôl-16 yn cyflawni safonau rhagorol. Maent yn gwybod sut i ddefnyddio pecynnau celf a dylunio penodol, gan gynhyrchu bwydlenni a phosteri deniadol i'w defnyddio yn eu gwaith prosiect, mae nifer yn defnyddio rhaglenni arbenigol megis system cyfathrebu newid darluniau i gefnogi'r gwaith hwn. Fel rhan o brosiect menter yr ifanc, mae arweinwyr prosiect wedi defnyddio pecynnau dylunio i gynhyrchu cardiau busnes, logos a chalendrau. Mae ychydig yn ymchwilio gwefannau am wybodaeth ar sut mae'r corff yn gweithio, ac yn creu cyflwyniadau am yr amgylchedd a'u cymuned leol.

174 O ganlyniad i brosiect gweithio gyda 'Bws Cyfryngau' oedd yn ymweld â'r ysgol, mae llawer o ddysgwyr wedi gwneud cyfres o ffilmiau animeiddio; maent wedi datblygu'r gwaith hwn yn dda, gan ddefnyddio rhaglenni dylunio ar gyfrifiadur i greu ffilmiau am ddigwyddiadau ysgol yn annibynnol.

Nodweddion da

175 Arddangosa'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn CA3 fedrau da iawn wrth ddefnyddio cyflwyniadau PowerPoint i wella'u medrau llythrennedd. Defnyddiant gamerâu digidol yn annibynnol ac maent yn gallu mewnbynnu delweddau i raglen gyfrifiadurol i greu eu llyfrau digidol eu hunain y maent yn cyflwyno i weddill y grŵp. Mae dysgwyr mwy galluog yn hyderus wrth ddefnyddio chwaraeydd cyfryngau cludadwy, gan arbrofi gydag amrywiaeth o gymwysiadau gellid eu llwytho i lawr i gyfoethogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm.

176 Mae dysgwyr gydag anawsterau mwy difrifol yn gallu defnyddio cymhorthion cyfathrebu, sydd yn gysylltiedig â rhaglen cyfrifiadur, i ddynodi dewisiadau, a dewis switshis i ddynodi cyfeiriad teithio i'r dde neu i'r chwith. Maent yn cynhyrchu lluniau lliwgar a storïau gan ddefnyddio pecynnau creadigol. Dengys dysgwyr eraill eu medr wrth ddefnyddio 'dynavox' i gyfathrebu gydag eraill.

177 Wrth weithio gyda'i gilydd ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gallu llusgosod delweddau i gefndir yn annibynnol, mae ychydig angen cymorth oedolyn.

178 Fel rhan o brosiect ar ranbarthau'r India, mae llawer o ddisgyblion CA4 yn defnyddio'r bwrdd gwyn rhyngweithiol yn hyderus i greu a chyflwyno gwybodaeth am Hindŵaeth. Defnyddiant y rhyngrwyd yn effeithiol i ddod o hyd i wybodaeth ar ddyluniadau Mendhi ac arddangosant eu medrau'n dda wrth ddefnyddio pecyn prosesu geiriau i gyflwyno eu syniadau.

Diffygion

179 Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

Dylunio a thechnoleg

Cyfnod Allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Cyfnod Allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Cyfnod Allweddol 3: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Cyfnod Allweddol 4: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Ôl-16: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

180 Mae dysgwyr ieuengach yn arbrofi'n llwyddiannus gydag amrediad o ddeunyddiau mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd chwarae.

181 Yn CA2 a CA3, mae llawer o ddysgwyr yn dylunio cerbydau symudol; gwnânt fodelau dychmygus a mynd ymlaen i werthuso eu dyluniadau. Maent yn dylunio a gwneud fframiau lluniau deniadol. Maent yn arbrofi gydag amrediad o ddeunyddiau gan ddewis a threfnu gwahanol weadau a dod o hyd i wrthrychau i wneud gludweithiau tri-dimensiwn diddorol a lliwgar.

182 Mae dysgwyr sydd ag anableddau mwy difrifol yn mwynhau cyffwrdd a blasu'r cynhwysion ar gyfer gwneud tartledi. Gyda chymorth, maent yn gallu mynegi hoffter wrth ddewis llenwad i'r tartledi, mae ychydig yn cyfranogi wrth wneud y tartledi tra bod eraill yn arsylwi'r broses.

183 Wrth wneud teisen Berffro, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gallu dynodi'r offer i'w defnyddio, ac yn ystyried trefn y rysáit, maent yn dylunio a gwneud y siâp dewisedig allan o'r toes, gan gynhyrchu dyluniadau deniadol i'r bisgedi.

184 Mae dysgwyr hŷn yn dylunio baneri ffabrig lliwgar fel rhan o brosiect ar India. Wrth addurno eu model dosbarth o gysegr Hindŵaidd, maent yn cynhyrchu amrywiaeth o 'mithai' (melysion Hindŵaidd) lliwgar ac yn arddangos eu medrau wrth fesur a thorri gan roi ystyriaeth i faterion iechyd a diogelwch. Mae eraill yn dylunio a gwneud brithweithiau gan ddefnyddio gwydr a phersbecs; dangosant ymwybyddiaeth o greu patrymau lliwgar yn eu dyluniadau.

185 Defnyddia'r rhan fwyaf o ddysgwyr ôl-16 eu gwybodaeth o wyddoniaeth i ddylunio pryd iachus. Maent yn gwybod ac yn gallu enwi'r gwahanol grwpiau bwyd, ac yn defnyddio cardiau darlun i greu pryd bwyd cytbwys. Maent yn dylunio cardiau bwydlen deniadol ar y cyfrifiadur, ac yn mwynhau paratoi pryd o fwyd dau gwrs ar gyfer eu cinio.

Diffygion

186 Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

Ieithoedd tramor modern

187 Dim ond yn CA3 caiff y pwnc hwn ei addysgu.

Cyfnod Allweddol 3: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

188 Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ennill ymwybyddiaeth a gwybodaeth dda o iaith tramor modern trwy'r profiadau sydd yn bennaf ddiwylliannol a dderbyniant yn ystod yr wythnosau ieithoedd tramor modern. Defnyddiant ymadroddion a geirfa briodol gan ddangos dealltwriaeth dda o rifau sylfaenol rhwng un a 10, ac ymadroddion cyffredin megis cyfarchion mewn Ffrangeg neu Almaeneg.

Defnyddiant yr ymadroddion hyn yn dda yn unol â chyd-destun y testun neu'r thema maent yn ei ddilyn.

189 Yn CA3, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn creu bwydlenni ar gyfer bwyty pitsa Eidalaidd gan ddangos dealltwriaeth dda o enwau'r gwahanol fwydydd.

190 Mae disgyblion mwy galluog yn dysgu ychydig o eiriau a chymalau, megis cyfarchion, ac yn defnyddio'r rhain yn gywir mewn cyd-destun priodol.

Diffygion

191 Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

Hanes

Cyfnod Allweddol 1:	**Gradd 2:**	**Nodweddion da a dim diffygion pwysig**
Cyfnod Allweddol 2:	**Gradd 2:**	**Nodweddion da a dim diffygion pwysig**
Cyfnod Allweddol 3:	**Gradd 2:**	**Nodweddion da a dim diffygion pwysig**
Cyfnod Allweddol 4:	**Gradd 2:**	**Nodweddion da a dim diffygion pwysig**
Ôl-16:	**Gradd 2:**	**Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

Nodweddion da

192 Yn CA1 a CA2, mae llawer o'r dysgwyr ieuengach yn gwisgo dillad Fictoraidd ac yn ennill ymwybyddiaeth o'r math o ddillad a wisgwyd yn y cyfnod. Defnyddiant eu synhwyrau'n effeithiol i deimlo'r gwead ac i arogli'r deunyddiau, a hefyd i ddynodi golygfeydd, arogleuon a seiniau amser maith yn ôl wrth ymweld â thrên stêm.

193 Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cysylltu'r treigl amser yn dda trwy ddefnyddio amrywiol ddangosyddion megis beth wnaethant ar y penwythnos, neu sylwi newidiadau tymhorol yn yr amgylchedd.

194 Yn CA3 a CA4, mae'r disgyblion hŷn yn ysgrifennu llythyr byr, fel petaent yn faciwîs, gan ddweud ble maent yn byw a gyda phwy. Gwnânt restr o'r prif wahaniaethau rhwng eu bywydau bob dydd nhw heddiw a bywyd yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

195 Maent yn cymharu eitemau, megis radio a chwaraeydd CD, gyda'u cyfwerth o'r gorffennol, gan ddefnyddio'r cymalau a'r eirfa briodol i esbonio'r gwahaniaethau ac unrhyw bethau tebyg.

196 Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwybod enwau'r gwledydd a fu'n ymladd yn yr Ail Ryfel Byd. Maent yn dynodi ystod o arfau a ddefnyddiwyd yn y rhyfel ac yn gallu gwahaniaethu rhwng yr awyrennau a ddefnyddiwyd yn y 1940au â'r rhai a ddefnyddir heddiw, a gwahaniaethu'n gywir rhwng arfau rhyfel hen a newydd.

197 Mae llawer yn dynodi a disgrifio'r ffordd mae lluniau yn dangos bywyd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Maent yn cymharu cyflwyniad papur newydd yn Rhagfyr 2009 gydag un yr un papur newydd yn Rhagfyr 1917, gan nodi'n ofalus unrhyw bethau tebyg neu wahanol.

198 Yn y grŵp ôl-16, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn paentio lluniau o gestyll lleol ac yn disgrifio'r gwahaniaethau maent wedi sylwi rhwng y ffyrdd roedd pobl yn byw yn y cestyll, a'r ffordd mae pobl yn byw eu bywydau heddiw.

Diffygion

199 Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

Daearyddiaeth

Cyfnod Allweddol 1:	**Gradd 2:**	**Nodweddion da a dim diffygion pwysig**
Cyfnod Allweddol 2:	**Gradd 1:**	**Da gyda nodweddion rhagorol**
Cyfnod Allweddol 3:	**Gradd 1:**	**Da gyda nodweddion rhagorol**
Cyfnod Allweddol 4:	**Gradd 1:**	**Da gyda nodweddion rhagorol**
Ôl-16:	**Gradd 1:**	**Da gyda nodweddion rhagorol**

Nodweddion rhagorol

200 Datblyga'r holl ddysgwyr lefelau da iawn o ddealltwriaeth am wahanol bobl a llefydd yn y byd yn briodol i'w hanghenion a lefelau o allu cyfathrebu, trwy ystod o waith project a thestunau traws-cwricwlaidd sydd wedi eu cydlynu'n dda a'u cynllunio'n ofalus. Er enghraifft, testunau ar yr India yn CA4 a phrosiectau Ewropeaidd ysgol-gyfan.

201 Yn CA2, mae dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth dda iawn o batrymau tywydd lleol ac yn datblygu hyder wrth ddadansoddi tueddiadau a gwneud rhagfynegiadau trwy'r defnydd o chwarae-rôl creadigol, byrddau gwyn rhyngweithiol a theledu ac amrediad o adnoddau synhwyraidd, ymarferol arall. Er enghraifft, y gêm tywydd "gadewch i ni wisgo ar gyfer y traeth", neu "gadewch i ni wisgo ar gyfer y glaw".

202 Dangosa'r rhan fwyaf o ddysgwyr lefelau da o wybodaeth a dealltwriaeth o'u hardal leol ac yn gallu adnabod nodweddion a llefydd penodol ar draws y rhanbarth ac ymhellach i ffwrdd yn hyderus. Yn y rhan fwyaf o gyfnodau allweddol, gwneir defnydd rhagorol o dripiau, gan gynnwys rhai i wledydd eraill, ac ymweliadau cyson yn yr ardal, er mwyn i ddysgwyr brofi gwahanol amgylcheddau'n uniongyrchol. Maent yn gwneud arsylwadau, casglu gwybodaeth ac yn ei ddadansoddi a'i gyflwyno mewn nifer o wahanol ffyrdd pan yn ôl yn y dosbarth.

Nodweddion da

203 Ar draws yr holl gyfnodau allweddol, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cyfathrebu eu harsylwadau gyda diddordeb a hyder gan ddefnyddio geiriau, arwyddion a symbolau fel yn briodol a gan ddefnyddio iaith pwnc-benodol.

204 Datblyga dysgwyr ar draws y cyfnodau allweddol eu dealltwriaeth am y tywydd a phatrymau hinsawdd trwy gadw dyddiaduron a phlotio newidiadau dros amser, gyda siartiau a graffiau. Mae gwaith prosiect ar 'gwlad a thref' er enghraifft, ac ar 'y tymhorau', yn caniatáu y rhan fwyaf o ddysgwyr i ddatblygu cysyniadau daearyddol ac amrediad o fedrau ychwanegol, yn enwedig mewn medrau cyfathrebu, rhif, personol a chymdeithasol, a'r Cwricwlwm Cymreig.

205 Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr, ar draws yr holl gyfnodau allweddol, yn ennill dealltwriaeth dda o'r amgylchedd ffisegol lleol a datblygir ymdeimlad o le a chaiff ei wneud yn berthnasol trwy themâu penodol. Er enghraifft, o 'fy nghartref' a 'fy ysgol' i 'pobl sydd yn ein helpu' a 'ble maent yn gweithio?'.

206 Datblyga'r rhan fwyaf o ddysgwyr ddealltwriaeth o faterion amgylcheddol trwy amrediad o brosiectau. Er enghraifft helfa ysglyfaethu ar draethau lleol a thrwy waith pwyllgor eco'r ysgol.

Diffygion

207 Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

Celf a dylunio

Cyfnod Allweddol 1: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol
Cyfnod Allweddol 2: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol
Cyfnod Allweddol 3: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol
Cyfnod Allweddol 4: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol
Ôl-16: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

Nodweddion rhagorol

208 Gwna'r rhan fwyaf o ddysgwyr ddefnydd rhagorol o gelf i wella ac atgyfnerthu dysgu a medrau ar draws y cwricwlwm. Maent yn arbrofi gydag amrediad eang o gyfryngau i gynhyrchu gwaith o ansawdd a diddordeb uchel. Dangosa'r rhan fwyaf o ddysgwyr amrywiaeth eang o ddulliau a ddatblygwyd yn dda iawn a deunyddiau dewisedig yn eu gwaith.

209 Mae'r holl ddysgwyr ar draws y cyfnodau allweddol yn profi ac yn archwilio gwahanol gyfryngau i gynhyrchu dyluniadau, patrymau a darluniau deniadol iawn a ystyriwyd yn dda ac sydd o ansawdd uchel. Defnyddia llawer o ddysgwyr adnoddau TGCh yn briodol i ymestyn nodweddion penodol ac agweddau o'u gwaith mewn dull hynod o ddychmygus a gwnânt ddefnydd da iawn o gamerâu digidol i gofnodi patrymau a delweddau yn yr amgylchedd. Defnyddiant y rhain yn dda iawn fel sail i waith pellach yn eu dyluniadau a'u cyflwyniadau.

Good features

210 Cyfrannodd yr holl ddysgwyr i'r croglun o'r 'Pedwar Tymor' a grëwyd ar y cyd gyda'r arlunydd preswyl. Roeddent wedi cymysgu lliwiau sylfaenol ac eilaidd, gwneud a defnyddio papier-mâché, yn ogystal ag amrediad o gyfryngau eraill, gan gynnwys deunyddiau o wahanol wead i wella eu gwaith a'r arddangosfa.

211 Yn CA1, gwna llawer o ddysgwyr printiadau gan ddefnyddio bysedd a dail, a gwnânt ddefnydd effeithiol o amrediad o gyfryngau i greu gludweithiau deniadol. Mae llawer o ddysgwyr yn gallu peintio a chydweddu lliwiau'n gywir.

212 Yn CA2, mae llawer o ddysgwyr yn printio gan ddefnyddio bysedd ac amrywiol ffurfiau o gyfryngau, a gwnânt ludweithiau o'u hunain yn arbrofi gydag ystod eang o gyfryngau. Defnyddiant TGCh yn gymwys i lunio darluniau o anifeiliaid, a defnyddio paent i liwio clai.

213 Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr CA3 yn defnyddio rholeri i wneud teils clai, a dewisant eu paent a'u lliwiau yn ôl yr aroglau. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr CA4 yn creu ffenestr gwydr lliw gan ddefnyddio brithweithiau plastig, gweithiant yn effeithiol gyda golchiadau inc, ac maent yn gallu copïo a chreu dyluniadau Mendhi gan ddefnyddio pensiliau. Mae'r dysgwyr mwy galluog yn gallu defnyddio'r rhyngrwyd i ymchwilio dyluniadau Mendhi.

Diffygion

214 Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

Cerddoriaeth

Cyfnod Allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Cyfnod Allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Cyfnod Allweddol 3: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Cyfnod Allweddol 4: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Ôl-16: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

215 Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr ieuengach yn gwybod nifer dda o ganeuon cyfarwydd, ymatebant gyda mwynhad wrth ganu a pherfformio caneuon actol. Gwnânt ddewisiadau wrth ddewis eu hoff gân oddi ar gardiau darlun i weddill y dosbarth gael canu. Maent yn mynegi eu teimladau trwy ganu ymateb i gân cwestiwn ac ateb.

216 Gwna dysgwyr CA3 storïau sain diddorol mewn ymateb i ymweliad i harbwr lleol. Maent yn arbrofi gydag amrywiaeth o ffynonellau sain ac yn dewis offerynnau taro i ail-greu seiniau'r cerigos, y gwynt a'r tasgu.

217 Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu dealltwriaeth dda o elfennau cerddoriaeth ac wrth ddysgu am hyd sain maent yn gallu gwahaniaethu rhwng seiniau hir a byr. Mae dysgwyr yn gallu dynodi nifer o offerynnau taro a'u defnyddio i arbrofi gyda sain; maent yn gallu dynodi offerynnau sydd yn gallu gwneud seiniau hir a byr.

218 Wrth ddatblygu eu medrau cyfansoddi, defnyddia dysgwyr siapau lliw i wneud sgoriau graffig diddorol ac maent yn gallu perfformio eu cyfansoddiadau ar glychau llaw. Mae dysgwyr eraill yn defnyddio rhaglen gyfrifiadurol i gyfansoddi darn byr ac yn arddangos eu gwaith ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol. Dengys nifer o ddysgwyr eu bod yn gallu newid a rheoli sain trwy arbrofi gyda phelydr sain.

219 Mae dysgwyr yn cyflawni safonau da yn eu canu yn ystod sesiynau canu ysgol gyfan. Mae'r ysgol yn cymryd rhan yn y fenter 'Gallu Canu' ac yn gweithredu dynesiad gyda mwy o ffocws ar y datblygiad o ganu, mae hyn wedi cael effaith cadarnhaol iawn ar safonau canu ar draws yr ysgol. Mae dysgwyr yn canu'n dda, gyda rheolaeth dda, maent yn gallu canu caneuon dau-ran; gwyddant sut i ymateb i arweinydd, gan ganu'n dawel ac yn uchel fel yn briodol.

220 Mae côr yr ysgol yn cyflawni safonau da; mae dysgwyr yn gwybod amrywiaeth o ganeuon o sioeau poblogaidd, maent yn eu perfformio'n dda iawn, yn hyderus a gydag ymdeimlad o arddull.

221 Mae dysgwyr yn gwrando ac yn ymateb i amrywiaeth eang o gerddoriaeth yn dda. Maent yn gallu mynegi barn am yr hyn maent yn hoffi, ysgrifennu am yr offerynnau a ddefnyddir a sut mae'r gerddoriaeth yn gwneud iddynt deimlo. Maent yn profi nifer dda o berfformiadau cerddoriaeth byw, yn ogystal â chymryd rhan eu hunain yn y cyngherddau a'r sioeau ysgol.

Diffygion

222 Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

Addysg gorfforol

Cyfnod Allweddol 1: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol
Cyfnod Allweddol 2: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol
Cyfnod Allweddol 3: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol
Cyfnod Allweddol 4: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol
Ôl-16: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

Nodweddion rhagorol

223 Dengys rhai o'r dysgwyr mwy galluog ddawn ragorol a safonau uchel wrth sgïo. Mae ychydig wedi cynrychioli Prydain yn y Chwaraeon Olympaidd Arbennig, yn fwyaf diweddar yn yr America yn 2009, ac ennill medalau Aur, Arian ac Efydd mewn cystadlaethau sgïo yn y gemau yn 2001 a 2005.

224 Mae bron yr holl ddysgwyr, ar draws yr holl gyfnodau allweddol yn datblygu ymwybyddiaeth dda iawn o'u cyrff a'u potential eu hunain wrth iddynt ymateb yn gadarnhaol i amrediad o wahanol symudiadau megis taflu neu gicio pêl, cymryd rhan mewn gweithgareddau marchogaeth ceffyl neu cartio, neu fynd ar gefn beiciau a threisiclau.

225 Dengys llawer o ddysgwyr yn CA3 a CA4 rheolaeth dda o daflu pêl criced yn gywir mewn sefyllfa gêm ac maent yn gwybod enwau'r chwaraewyr a'u lleoliadau megis y wicedwr neu'r bowliwr.

226 Mae llawer o'r disgyblion sydd â PMLD, o bob cyfnod allweddol, yn troi eu pennau neu eu llygaid tuag at ffynhonnell golau neu sain, gan ddangos rheolaeth ddatblygol a gwnânt gynnydd cyson wrth ddysgu dal a thrafod amrywiaeth o eitemau.

Good features

227 Yn CA1, dengys llawer o ddysgwyr gwahanol ffyrdd o ymgynhesu cyn gweithgaredd, ac maent yn gallu arddangos ffyrdd o symud o amgylch y neuadd gan ddefnyddio amrywiol fedrau cydbwyso. Mae'r dysgwyr mwy galluog yn cydbwyso'n dda ar fainc gymnasteg, gan ddangos rheolaeth dda o'r corff. Mae'r dysgwyr hynny sydd yn derbyn sesiynau therapi adlam yn dangos technegau cydbwyso da pan gânt eu cefnogi gan y staff.

228 Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr sydd yn defnyddio'r ystafell 'Chware meddal' yn neidio, rolio a dringo gydag ystwythder a hyder cynyddol. Mae disgyblion hŷn, yn CA3 a CA4, yn dangos medrau da iawn wrth drefnu symudiadau gymnasteg syml, gan wneud hynny gyda chywirdeb, ac yn gorffen gyda threfn derfynol sydd â rheolaeth a disgyblaeth dda. Dangosant dechnegau rhedeg da mewn rasys ac wrth wthio'r pwysau mewn cyfarfod athletau lleol.

Diffygion

229 Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

Addysg grefyddol

Cyfnod Allweddol 1:	**Gradd 2:**	**Nodweddion da a dim diffygion pwysig**
Cyfnod Allweddol 2:	**Gradd 2:**	**Nodweddion da a dim diffygion pwysig**
Cyfnod Allweddol 3:	**Gradd 2:**	**Nodweddion da a dim diffygion pwysig**
Cyfnod Allweddol 4:	**Gradd 2:**	**Nodweddion da a dim diffygion pwysig**
Ôl-16:	**Gradd 2:**	**Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

Nodweddion da

230 Mae bron yr holl ddysgwyr yn yr holl gyfnodau allweddol yn ymweld â chapeli ac eglwysi o fewn y gymuned leol. Dangosant barch priodol a chymryd rhan mewn addoli ar y cyd ac ymatebant yn briodol trwy gydol y gwasanaeth trwy gyfranogi mewn rhai caneuon a gweddïau crefyddol. Gwyddant fod gweddi yn fodd o gyfathrebu gyda Duw, ac i feddwl am faterion pwysig.

231 Yn yr holl gyfnodau allweddol, mae gan y rhan fwyaf o ddysgwyr ymwybyddiaeth o'r diwrnodau a'r gwyliau arbennig, megis y Pasg a'r Nadolig. Maent yn deall pwysigrwydd gŵyl y diolchgarwch yn ogystal â diwrnodau arbennig mewn crefyddau eraill a ddethlir mewn gwyliau Hindŵaidd neu Iddewig.

232 Mae llawer o ddysgwyr CA3 yn gallu gwrando ar storïau o'r Beibl ac ailberfformio'r stori. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn atgyfnerthu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o wyliau ac achlysuron arbennig trwy'r defnydd effeithiol o gyflwyniadau TGCh.

233 Mae gan ddysgwyr hŷn a mwy galluog ddealltwriaeth dda o ystyr y symbolau a'r arteffactau a ddefnyddir gan y prif grefyddau.

Diffygion

234 Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

Ymateb yr ysgol i'r arolygiad

Mae'r adroddiad yn cydnabod yr arfer ardderchog a chyflawniad ardderchog y disgyblion sydd yn amlwg yn ddyddiol o fewn yr ysgol.

Mae'n adlewyrchiad o'r safonau uchel a osodwn ar gyfer ein hunain ac o ymroddiad ac ymrwymiad y staff, y llywodraethwyr, y disgyblion, y rhieni a chydweithwyr o fewn y gymuned leol a'r gymuned ehangach.

Byddwn yn defnyddio'r pwyntiau gweithredu ar gyfer cwestiwn 4 i barhau ein trafodaethau cyfredol gyda'r awdurdodau priodol gydag egni cynyddol wrth geisio'r ddarpariaeth ychwanegol o'r gwasanaethau cynnal a'r ALl.

Bydd y cynllun gweithredu yn ffurfio rhan o'r cynllun datblygu ysgol a chaiff ei rhannu gyda'r rhieni a chydweithwyr priodol. Adroddir ar y cynnydd yn adroddiad blynyddol y llywodraethwyr i'r rhieni ac yng nghylchlythyr yr ysgol.

Hoffai'r ysgol ddiolch i'r tîm arolygu am y modd proffesiynol a chyfeillgar y cynhaliwyd yr arolygiad ac am eu cwrteisi tuag at bawb yn ystod yr arolygiad.

Atodiad 1

Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol

Enw'r ysgol	Ysgol Heol Goffa
Math o ysgol	Arbennig
Ystod oedran y disgyblion	3-19
Cyfeiriad yr ysgol	Heol Goffa Llanelli Sir Gaerfyrddin
Cod post	SA15 3LS
Rhif ffôn	01554 759465

Pennaeth	Mr P Newell
Dyddiad penodi	1 Medi 2003
Cadeirydd y llywodraethwyr	Mrs S Cooke
Arolygydd cofrestredig	Mr Glyn Griffiths
Dyddiadau'r arolygiad	17 – 19 Mai 2010

Atodiad 2

Data a dangosyddion ysgol

Nifer y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn								
Grŵp blwyddyn	M (call)	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Nifer y disgyblion	2	2	3	3	-	5	4	2

Grŵp blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13	B 14	Cyfanswm
Nifer y disgyblion	2	4	12	2	12	6	8	9	76

Cyfanswm nifer yr athrawon			
	Amser llawn	Rhan-amser	Cyfwerth ag amser llawn (call)
Nifer yr athrawon	11	1	11.6

Gwybodaeth staffio	
Cymhareb disgybl: athro (call) (ac eithrio dosbarthiadau meithrin)	1:74
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau meithrin	2:1
Cyfartaledd maint dosbarth, ac eithrio dosbarthiadau meithrin	4:4
Cymhareb athro (call): dosbarth	1:7.6

Canran presenoldeb ar gyfer y tri thymor cyflawn cyn yr arolygiad			
	M	D	B1 – Y6
Tymor 1	-	97.88	93.5
Tymor 2	-	95.19	88.06
Tymor 3	98.25	96.55	91.73

Canran presenoldeb ar gyfer y tri thymor cyflawn cyn yr arolygiad									
	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13	B14	Ysgol gyfan
Tymor 1	67.08	96.61	94.35	94.92	95.20	95.50	96.09	90.11	93.64
Tymor 2	92.22	90.24	89.70	93.57	87.45	96.43	91.74	94.60	90.23
Tymor 3	75.74	90.14	95.48	94.79	94.70	94.34	95.24	90.38	91.38

Canran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim	35%
Nifer y disgyblion a gafodd eu gwahardd yn ystod y 12 mis cyn yr arolygiad	-

Atodiad 3

Canlyniadau arholiadau cyhoeddus 2009

Corff Achrediad	Nifer o ddisgyblion llwyddiannus	Cyfanswm y gwobrau
ASDAN • Her Pontio • Tuag at Annibyniaeth	 12 7	 12 12
OCN Medrau Bywyd - Lefel Mynediad	4	106 o gredydau
Cymwysterau Medrau Allweddol	9	9

Atodiad 4

Sail dystiolaeth yr arolygiad

Treuliodd pum arolygydd, ynghyd ag enwebai'r ysgol ac asesydd cymheiriaid, cyfanswm o 15 diwrnod arolygydd yn yr ysgol a chyfarfod fel tîm cyn yr arolygiad.

Bu'r arolygwyr hyn yn ymweld â:

- 43 o wersi neu rannau o wersi yn yr ysgol;
- gwasanaethau a chyfnodau cofrestru; ac
- amrediad o weithgareddau allgyrsiol.

Cynhaliodd aelodau o'r tîm arolygu gyfarfodydd gyda:

- staff, rhieni/gofalwyr a llywodraethwyr cyn yr arolygiad;
- uwch rheolwyr, athrawon, staff cynnal, staff arbenigol a staff gweinyddol;
- cynrychiolwyr o sefydliadau ac asiantaethau'n gysylltiedig â'r ysgol; a'r
- cyngor ysgol.

Bu'r tîm hefyd yn ystyried:

- dogfennaeth a ddarparwyd gan yr ysgol cyn ac yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys adroddiad hunan arfarnu'r ysgol;
- enghreifftiau o waith dysgwyr ym mhob pwnc;
- ymddygiad dysgwyr yn ystod cyfnodau egwyl, amser cinio ac ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol;
- enghreifftiau o adroddiadau i'r rhieni a'r gofalwyr; a
- 23 o ymatebion gan rieni yn yr holiaduron.

Atodiad 5

Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu

Aelod tîm	Cyfrifoldebau
Mr Glyn Griffiths Arolygydd Cofrestredig	Cyd-destun, Crynodeb Argymhellion, Atodiadau Cwestiynau Allweddol 1 a 2 (addysgu) Cymraeg ail iaith, hanes, addysg gorfforol
Mrs Gillian Unwin Arolygydd Tîm	Cwestiynau Allweddol 3 a 5 (asesu) dylunio a thechnoleg, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, cerddoriaeth
Mrs Joyce Chatterton Arolygydd Tîm	Cwestiwn Allweddol 4 gwyddoniaeth
Mr Philip Bowker Arolygydd Tîm	Cwestiynau Allweddol 6 a 2b (asesu) Saesneg, mathemateg, daearyddiaeth
Ms Jendy Hillier Arolygydd Tîm	Cwestiwn Allweddol 7 addysg grefyddol, ieithoedd tramor modern, celf a dylunio
Mr Gwynoro Jones Arolygydd Lleyg	Cyfraniadau i Gwestiynau Allweddol 1, 2, 3 a 4.
Mr Ian Elliott Asesydd Cymheiriaid	Cyfraniadau i Gwestiynau Allweddol 1, 2, 3 a 4.
Mrs Nikki Symmons Enwebai'r ysgol	Enwebai

Cydnabyddiaeth

Dymuna'r tîm arolygu ddiolch i lywodraethwyr, pennaeth, staff, dysgwyr a rhieni Ysgol Heol Goffa am eu cydweithrediad a'u cwrteisi cyn ac yn ystod yr arolygiad.

Contractwr: EPPC-Severn Crossing Cyf
Swît F2A, Tŷ Britannic, Llandarsi, Castell-nedd SA10 6JQ